# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

# 2019/20

## Cyhoeddwyd Hydref 2020

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## GWNEUD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL FWY DIOGEL I FYW YNDDI, I WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI

Croeso i adroddiad cynnydd a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20. Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20, a oedd yn cadarnhau ei amcanion strategol tymor hir ac yn esbonio beth roedd yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn o ran cwblhau rhai camau penodol a ddatblygwyd er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r tair cam galluogi.Mae hyn wedi dangos cynnydd mewn perthynas â'r ddau amcan hirdymor ar gyfer Gwella a Llesiant. Mae'r adran o'r enw 'Cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Amcanon Gwella a Llesiant' yn nodi tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau hyn.

Fodd bynnag, ar 11 Mawrth 2020, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod sefyllfa'r coronafeirws Covid19, yn bandemig, ac fe wnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig orfodi 'cyfnod clo' cenedlaethol, yn dechrau ar 23 Mawrth 2020.

Prif bryder yr Awdurdod o'r dechrau oedd diogelwch y staff a'r cyhoedd. Cydnabuwyd yn syth y byddai'r Awdurdod, drwy leihau cysylltiad, yn gallu helpu i ostwng nifer yr heintiadau o'r coronafeirws. Drwy gydol mis Mawrth ac i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd, ymatebodd yr Awdurdod yn gadarnhaol i gais gan Lywodraeth Cymru i bobl aros gartref er mwyn amddiffyn bywydau, fel nad oeddent yn colli unrhyw gynnydd a wnaed wrth frwydro yn erbyn y coronafeirws. Golygai hyn fod llawer o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) am ddechrau gweithio o gartref ar unwaith, gan deithio dim ond pan fo angen a chan ddilyn y rheoliadau ynghylch cadw pellter cymdeithasol.

Wrth i'r Gwasanaeth ganfod ffyrdd newydd o weithio, cydnabuwyd yn eang y bydd angen i lawer o'r datblygiadau hyn ymestyn y tu hwnt i'r argyfwng peresenol, a gobeithio y bydd technoleg yn hwyluso anghenion y Gwasanaeth yn y dyfodol ar ôl Covid.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad eleni yn un diddorol ac yn llawn gwybodaeth. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar gynnwys enghreifftiau o wahaniaeth gwirioneddol a wnaed i fywydau pobl. Fel bob amser, rydym yn croesawu adborth am y modd y gellir gwella'r dulliau adrodd yn y dyfodol.

Gellir defnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 66 i wneud sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwella.

## CYNNWYS

**CYNNWYS**

Y GOFYNION CYFREITHIOL AR GYFER ADRODD .................................................. 5
GAIR AM OGLEDD CYMRU ........................................................................... 8
GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ................................. 19
Y GWASANAETHAU A DDARPERIR GAN YR AWDURDOD .................................... 21
CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION GWELLA A LLESIANT .................. 22
MONITRO CYDYMFFURFIAETH GYDA SAFONAU'R GYMRAEG ............................ 38
CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL..... 42
SUT MAE AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN CYMHARU? ......... 47
CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD ................................................. 55
Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2019/20 ............................ 56
BETH MAE POBL ERAILL WEDI'I DDWEUD AMDANOM....................................... 61
GEIRFA/DIFFINIADAU ..................................................................................... 64
FERSIYNAU ERAILL A SUT I GYSYLLTU Â NI.......................................................... 66

## Y GOFYNION CYFREITHIOL AR GYFER ADRODD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl am y nodau tymor hir, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, ceisio atal problemau a chael dull mwy cydgysylltiedig[1] . Mae’r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant. Mae’r amcanion tymor hir yn newidiadau y mae’r Awdurdod eisiau eu creu yng Ngogledd Cymru i gyfrannu at wella llesiant yr ardal ac i symud Cymru yn nes at gyflawni ei nodau llesiant.





Ar ôl adnabod yr amcanion tymor hir hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw yn unol â’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio, ac i adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd a wnaeth. Pum ffordd o weithio;

 Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir

 Atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu

 Cael dull integredig, sy’n sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

 Cofio amrywiaeth gyfoethog pobl yng Ngogledd Cymru, a’u hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt

 Gweithio ar y cyd i gyflawni’r amcanion llesiant

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr Hanfodion https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi'u categoreiddio hefyd yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac maent yn agored i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ardal awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sef:

- Gwynedd a Môn
- Conwy a Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam.


Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi 'Cynllun Lles' i nodi ei flaenoriaethau a sut y maent yn gweithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn eu hardaloedd.

**Cewch weld y Cynlluniau Lles trwy glicio ar y delweddau isod.**












**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Equality Act 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, sy'n mynnu bod cyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn talu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

**Safonau'r Gymraeg 2016**

Fe gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen yn rhestru'r Safonau (fel yn y rhestr lawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## GAIR AM OGLEDD CYMRU

Drwy ddeall demograffeg cymunedau yng Ngogledd Cymru, a sut maent yn debygol o newid yn y dyfodol, gellir helpu'r Awdurdod i gynllunio'n briodol ac i gael yr adnoddau priodol.

Mae poblogaeth Gogledd Cymru wedi mynd drwy newid sylfaenol yn ei strwythur oedran. Mae llai o blant yn cael eu geni, ac yn gyffredinol mae pobl yn byw yn hŷn. O ganlyniad, mae oedran cyfartalog y boblogaeth yn cynyddu. Mae goblygiadau arwyddocol i'r gymdeithas gyfan oherwydd hyn.

Er mwyn ymateb i'r shifft demograffig hwn, bydd angen gwneud addasiadau mewn llawer o agweddau ar fywydau pobl: sut maent yn gweithio; sut maent yn cael gofal; sut maent yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'i gilydd; y seilwaith a sut maent yn dysgu ac yn defnyddio technoleg.

Er mwyn i'r Awdurdod ymaddasu'n llwyddiannus a chyflawni ei ddatganiad cenhadaeth, bydd angen iddo ddeall natur y newidiadau demograffig hyn a beth yw goblygiadau'r rhain.

**Datganiad Cenhadaeth**
**Gwneud gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi**

| Poblogaeth | Ardal (KM$^2$) | Dwysedd Poblogaeth (KM$^2$) | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|---|
| | km$^2$ | | Cymraeg |
| **698,369** | **6,150** | **113** | **30.8%** |

| Anheddau | Eiddo Annomestig | Darnau Ffyrdd (Km) | Ardal Amaethyddol (Hectarau) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **327,075** | **31,159** | **9,732** | **496,192** |

## Poblogaeth Gogledd Cymru

Ar hyn o bryd mae poblogaeth ardal Gogledd ryw 698,369 o bobl, sef tua 23% o boblogaeth Cymru. Mae hyn yn gynnydd o tua 8% ers 1991.

| Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canol Blwyddyn 1991** | | | | | |
| 69,123 | 115,007 | 107,951 | 89,395 | 142,036 | 124,180 |
| **Canol Blwyddyn 2018** | | | | | |
| 69,961 | 124,178 | 117,181 | 95,330 | 155,593 | 136,126 |
| Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru | | | | | |

Yn 2001 roedd canran y Bobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn llai na 1%. Erbyn diwedd 2019, roedd wedi cynyddu i fymryn yn llai na 2.5%. Mae dros 8,000 yn fwy o ferched na dynion ledled Gogledd Cymru. Wrecsam ydi'r unig sir â mwy o ddynion, gyda 50.18% o'r boblogaeth yn ddynion.


### Dwysedd Poblogaeth

Mae'r cynnydd mewn poblogaeth, yn naturiol, yn effeithio ar ddwysedd poblogaeth pob ardal. Ers 1991 mae'r dwysedd poblogaeth wedi cynyddu fwyaf yn Sir y Fflint o 325 i 356 o bobl am bob $km^2$. Er bod poblogaeth Gogledd Cymru wedi cynyddu, Gwynedd ydi'r sir lleiaf poblog o hyd gyda 49 o bobl am bob $km^2$.

| Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canol Blwyddyn 1991** | | | | | |
| 96 | 45 | 96 | 107 | 325 | 246 |
| **Canol Blwyddyn 2018** | | | | | |
| 98 | 49 | 104 | 114 | 356 | 270 |
| Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru | | | | | |

### Siaradwyr Cymraeg

Mae'r data a ryddhawyd yn dilyn cyfrifiad 2011 yn dangos bod y canran o siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru yn amrywio o 13% i 65%, o'i gymharu â chyfartaledd o 19% ar gyfer Cymru.



Rhagwelir y bydd nifer y siaradwyr Cymraeg dair oed a throsodd wedi cynyddu o 562,000 yn 2011 i 666,000 erbyn 2050.

Mae canran y bobl sydd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg wedi newid fymryn ar gyfer pob ardal llywodraeth leol o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd y cyfartaledd cenedlaethol o 65.0% i 62.9%.

| Awdurdod Lleol | Y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2009 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019 | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 62.7% | 60.8% | ↓ |
| **Gwynedd** | 65.9% | 67.4% | ↑ |
| **Conwy** | 48.4% | 48.3% | ←→ |
| **Sir Ddinbych** | 51.7% | 51.6% | ←→ |
| **Sir y Fflint** | 43.1% | 35.6% | ↓ |
| **Wrecsam** | 61.5% | 53.7% | ↓ |
| FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru | | | |

### Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'r boblogaeth yn eu hardaloedd?

**Ynys Môn** – Fe wnaeth nifer y bobl sy'n byw ar yr ynys gynyddu 4.9% rhwng 1981 a 2011. Mae hyn yn is na'r cynnydd ym mhoblogaeth Gymru gyfan (11%) yn ystod yr un cyfnod.
Dengys y ffigyrau diweddar fod 46% o'r trigolion yn Ynys Môn yn siarad Cymraeg bob dydd.

**Gwynedd** - Ymhen 20 mlynedd, disgwylir y bydd 60% yn fwy o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd. Dengys y ffigyrau diweddar bod 60% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg bob dydd.

**Conwy a Sir Ddinbych** – Mae 25% o'r boblogaeth dros 65 oed. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 20%.

**Sir y Fflint –** Erbyn 2039, bydd y trigolion sydd dros 65 oed wedi cynyddu 35%.

**Wrecsam –** Mae mwy o fenywod na dynion yn y sir, a hynny'n bennaf oherwydd bod menywod yn byw'n hirach na dynion. Yn ôl amcangyfrifon Cyfrifiad 2011, mae 16,659 o bobl 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn Wrecsam.

### Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub?

Rhaid i'r Awdurdod addasu ei ymgyrchoedd a'i negeseuon diogelwch cymunedol er mwyn cwrdd â gofynion poblogaeth sy'n cynyddu ac sy'n fwy amrywiol.

Mae'r boblogaeth yn heneiddio, gyda mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw yn yr ardal. Dyna pam mae mor bwysig chwilio am bartneriaethau newydd (a chynnal y rhai sydd gennym eisoes) gyda sefydliadau sydd eisoes yn cynorthwyo pobl yn y grŵp oedran hwn. Ond dim ond helpu i ostwng nifer yr achosion o dân y byddai darparu gwybodaeth bwrpasol am ddiogelwch tân i bawb, ni waeth beth fo eu hoedran.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddwyieithrwydd yn holl ardal y Gwasanaeth. Mae holl staff yr Ystafell Reoli yn ddwyieithog, felly mewn argyfwng gellir delio â galwadau yn y naill iaith neu'r llall. Rhaid i'r holl staff gyrraedd lefel dau, o leiaf, yn Gymraeg cyn diwedd eu cyfnod prawf. Mae'r adroddiad blynyddol ar y Gymraeg ar gael ar dudalennau 38 – 44.


## Byw yng Ngogledd Cymru

**Anheddau**
Dros y deng mlynedd diwethaf mae nifer yr anheddau yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 4%.


| Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canol Blwyddyn 2009-10** | | | | | |
| 33,768 | 59,615 | 55,031 | 43,316 | 64,764 | 57,528 |
| **Canol Blwyddyn 2019-20** | | | | | |
| 35,236 | 60,088 | 56,950 | 45,184 | 69,114 | 60,503 |
| StatsCymru Nifer yr Anheddau<br>StatsCymru Nifer yr Anheddau Wedi'u Heithrio | | | | | |

**Deiliadaeth Aelwydydd**

Mae'r graff isod yn dangos maint cyfartalog aelwydydd (pobl) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn.




Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y bobl sydd yn byw ar eu pen eu hunain.



**Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â byw yn eu hardaloedd?**

**Conwy a Sir Ddinbych** – un pensiynwr sy'n byw mewn un o bob chwech o gartrefi. Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar 7,600 o gartrefi yn y rhanbarth. Mae disgwyliad oes yn codi, ynghyd â chanran y bobl hŷn yn y gymuned.

**Ynys Môn –** Mae nifer y bobl dros 80 oed wedi cynyddu 143% mewn 30 mlynedd, ac yn sir **Gwynedd** – mae nifer y bobl dros 80 oed wedi cynyddu 96.2%. Mae 60% o'r bobl leol wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai, sy'n codi i 64% yn Ynys Môn.

**Sir y Fflint** – Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella, a disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd dyfu o 31,000 yn 2015 i 46,100 erbyn 2039.

**Wrecsam –** Mae Wrecsam yn cynnwys tua 59,850 o gartrefi i gefnogi poblogaeth o 136,650. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, dim ond 199 o gartrefi newydd a godwyd yn yr ardal, er bod rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn 2011 wedi rhagweld y byddai angen 650-700 o gartrefi newydd bob blwyddyn er mwyn cadw i fyny â'r twf yn y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu bod cartrefi newydd yn cael eu tan-ddarparu, ac mae hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod y diwydiant adeiladu wedi cyfangu ers y cwymp economaidd byd-eang yn 2008.

**Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub?**

Gwyddom, ar sail gwaith ymchwil helaeth, fod pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain a phobl oedrannus yn fwy tebygol o gael eu hanafu neu eu lladd mewn tân yn eu cartref. Felly, drwy wybod bod mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain gall y tîm diogelwch tân cymunedol dargedu eu hymgyrchoedd diogelwch yn briodol.

Mae byw mewn tlodi tanwydd yn golygu bod pobl yn mynd ati weithiau i wresogi eu cartrefi drwy ddulliau anghonfesiynol, neu'n ceisio gorddefnyddio'r gwres prin y gallant ei fforddio. Gall hyn arwain at gynnydd posibl yn y perygl o dân.

Mae data'n cael ei gasglu o bob tân yr awn atynt, felly mae modd archwilio'r hyn a achosodd y tanau er mwyn canfod tueddiadau a phroblemau. Yna, gellir defnyddio hyn i godi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd diogelwch tân, a hynny drwy amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.


## Yr economi a graddfeydd cyflogaeth yng Ngogledd Cymru

Mae ychydig dros 31,000 o eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru. Y sector economaidd mwyaf ydi Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota.

Dengys y tabl isaf nifer y busnesau yng Ngogledd Cymru ym mhob un o'r 5 prif sector economaidd.

| Sectorau Economaidd | Nifer y Busnesau |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota | 3,910 |
| Adeiladu | 3,290 |
| Adwerthu | 3,000 |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 2,985 |
| Gwasanaethau Llety a Bwyd | 2,800 |
| FFYNHONNELL: InfoBase Cymru | |

Ar 31 Rhagfyr 2019 roedd 329,300 o bobl oedran gweithio (16 – 64 mlwydd oed) wedi eu cyflogi yn ardal Gogledd Cymru.




### Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'r economi a chyflogaeth yn eu hardaloedd?

**Conwy a Sir Ddinbych -** mae 75% o'r tir yn dir amaethyddol sydd yn cael ei reoli gan ffermwyr yn bennaf. Mae amaeth yn cyfrannu tuag at yr economi wledig ac yn cyflogi 20% o'r boblogaeth yng nghefn gwlad Conwy a 15% o'r boblogaeth yng nghefn gwlad Sir Ddinbych.

**Sir y Fflint** - Mae tua 4,400 o unigolion yn chwilio am waith sef bron i 5% o'r boblogaeth oed gwaith. Dyma'r economi leol sy'n perfformio orau yng Ngogledd Cymru. Mae 10,000 (11%) o'r boblogaeth oed gwaith yn hawlio budd-daliadau di-waith.

**Ynys Môn a Gwynedd** - Amaeth ydi'r sector mwyaf yn y ddwy sir sydd i gyfrif am 19% o gyflogwyr, o gymharu â 12% ar gyfer gweddill Cymru.

**Wrecsam** - Mae cyfran uchel o'r busnesau hysbys sy'n gweithredu yn yr ardal yn rhai cymharol fach o ran maint. Mae rhyw 74% o fusnesau (2,650) yn cyflogi llai na phedwar o bobl ac mae 14% (500) arall yn cyflogi rhwng pump a naw o bobl. Mae tua 40% o fusnesau bach yn gweithredu o dan y trothwy TAW. Mae tua 7,700 o bobl neu 8.0% o'r boblogaeth mewn gwaith yn hunangyflogedig. O gymharu â'r raddfa genedlaethol, mae gan Wrecsam ddarpariaeth fymryn yn well ar gyfer prentisiaethau a rhaglenni dysgu seiliedig ar waith na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp oedran 16-24 oed.

### Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth yn rheolaidd ar ei wefan ac mae'n cymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaethau i alluogi i bobl ifanc gael profiad o'r gweithle.

Caiff ffermwyr a pherchnogion tir eu hatgoffa i'n hysbysu cyn llosgi dan reolaeth yn ystod y tymor llosgi, er mwyn i ni allu tawelu meddwl unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn ein ffonio i adrodd am dân. Rydym hefyd yn ymweld â marchnadoedd da byw i wthio ein negeseuon diogelwch.

## Iechyd y bobl sydd yn byw yng Ngogledd Cymru

Yn ôl data a gasglwyd fel rhan o'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth, roedd un rhan o bump o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed, yn byw yng Nghymru, ym mis Mawrth 2013, yn dweud eu bod yn anabl. Mae cyfran uwch o ferched na dynion yn dweud eu bod yn anabl (23.0% o'i gymharu â 18.8%).

| Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2013** | | | | | |
| 7,900 | 12,300 | 12,600 | 13,000 | 15,600 | 14,300 |
| FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru | | | | | |

Mae nifer y cleifion a gafodd eu derbyn yn ffurfiol i gyfleusterau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu ddeddfwriaeth arall) wedi cynyddu 58% dros gyfnod o bum mlynedd 2013/14 i 2017/18. Ar y llaw arall mae nifer y derbyniadau anffurfiol wedi gostwng o'r nail flwyddyn i'r llall.

| Blwyddyn Ariannol | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau Ffurfiol | 237 | 324 | 345 | 375 | 376 |
| Derbyniadau Anffurfiol | 1,598 | 1,384 | 1,180 | 887 | 928 |
| FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru | | | | | |

Yn ystod 2018/19 cafodd cyfanswm o 1,351 o bobl eu hasesu am gamddefnyddio cyffuriau a chafodd 1,569 o bobl eu hasesu am gamddefnyddio alcohol yn ardal Gogledd Cymru.

### Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am iechyd y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd?

**Conwy a Sir Ddinbych** – Mae tua 9.8% o boblogaeth Conwy ac 11.6% o boblogaeth Sir Ddinbych yn dweud eu bod yn cael triniaeth at salwch meddwl – 12.1% yw'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r cyfraddau hunanladdiad yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn uwch o gymharu â rhannau eraill o Gymru. Mae pobl sy'n byw â dementia ac wedi cofrestru â meddygfeydd yng Nghonwy a Sir Ddinbych wedi codi o 1,700 o gleifion yn 2011 i 2,050 yn 2016.

**Sir y Fflint** – Dengys yr ystadegau fod cynnydd hirdymor yng nghanran y bobl sydd dros eu pwysau. Yn 2014, roedd mwy na 25% o blant 4-5 oed a thua 57.5% o oedolion yn or-dew neu dros eu pwysau. Rhagwelir y bydd nifer y trigolion sy'n byw â dementia yn cynyddu tua 1,350 (66%) erbyn 2030.

**Ynys Môn a Gwynedd** – O'r bobl sy'n 16 oed neu hŷn, mae 22% (Ynys Môn) a 22% (Gwynedd) yn dweud eu bod yn ysmygu. Yn Ynys Môn, mae 38% o bobl yn yfed mwy na phum gwydriad bach o win neu tua thri pheint o lager yn ystod y diwrnod yfed trymaf ar gyfartaledd yn yr wythnos; mae hyn yn cynyddu i 42% yng Ngwynedd.

**Wrecsam –** Mae'r data ar gyfer 2016 yn dangos bod 850 o gleifion â dementia wedi cofrestru â meddygfeydd yn Wrecsam. Mae nifer y bobl sydd â chyflyrau cronig (e.e. pwysedd gwaed uchel, asthma, diabetes, methiant y galon a chlefydau'r ysgyfaint), ac wedi cofrestru â meddygfeydd yn Wrecsam, wedi cynyddu yn y pum mlynedd rhwng 2011 a 2016.

### Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub?

Yn ogystal â chyngor generig ar ddiogelwch yn y cartref, mae'r archwiliadau diogel ac iach hefyd yn cynnwys cyngor ar ddiogelwch tân wedi'i deilwra ar gyfer y preswylydd. Cysylltir ag asiantaethau gofal eraill yn y gymuned er mwyn sicrhau bod y bobl mwyaf anghennus yn cael blaenoriaeth. Gellir galw ar y gwasanaeth tân ac achub i gynorthwyo'r heddlu a/neu'r gwasanaeth ambiwlans i adfer cyrff ni waeth beth yw achos y farwolaeth. Gwneir hyn yn gwbl broffesiynol a sensitif, ond gall effeithio ar lesiant emosiynol y criwiau.

## Cysylltiadau Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

### Rhwydwaith FFyrdd

Mae ffordd gyflym yr A55 yn mynd 87 milltir rhwng porthladd fferi Caergybi, drwy awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint cyn croesi'r ffin i Loegr a diweddu yng Nghaer. Mae cyflymder teithio llai na 30 milltir yr awr yn yr ardaloedd hyn yn aml iawn gan ddibynnu ar yr adeg o'r dydd a chyfeiriad teithio.

A55 Tua'r Dwyrain


**Siart 1 – Cyflymder ceir tua'r dwyrain yn ystod yr wythnos ar yr A55 yn ôl cyffordd, rhwng Ebrill a Mehefin 2016**
***Oriau Brig y Bore (07:00 tan 10:00)***




***Oriau Brig yr Hwyr (16:00 tan 19:00)***




***Adegau nad ydynt yn oriau brig***





A55 Tua'r Gorllewin


**Siart 2 – Cyflymder ceir tua'r gorllewin yn ystod yr wythnos ar yr A55 yn ôl cyffordd, rhwng Ebrill a Mehefin 2016**
***Oriau Brig y Bore (07:00 tan 10:00)***




***Oriau Brig yr Hwyr (16:00 tan 19:00)***




***Adegau nad ydynt yn oriau brig***




[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru]

## Rheilffyrdd

### Defnydd gorsafoedd trenau: Ebrill 2018 i Mawrth 2019

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar werthiant tocynnau ac nid ydynt yn adlewyrchiad cywir o ddefnydd yn achos rhai gorsafoedd. Er enghraifft, gwerthir rhai tocynnau hyd at ddiwedd y llinell neu bellter eithaf y tocyn teithio, ac felly nid ydynt yn adlewyrchu'r siwrnai wirioneddol. O ganlyniad, mae rhai gorsafoedd sydd wedi eu nodi fel diwedd y llinell neu bellter eithaf yn ymddangos fel petaent yn brysurach nac y maent ac mae gorsafoedd eraill ar hyd y llinellau hyn yn ymddangos yn llai prysur nac y maent.

O'r 20 gorsaf drenau brysuraf yng Nghymru, mae dau wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru; Bangor a'r Rhyl.

| Gorsaf Drenau | 2017-18 I Mewn ac Allan | 2018-19 I Mewn ac Allan | Canran yNewid | |
|---|---|---|---|---|
| Canol Caerdydd | 12,951,746 | 14,204,684 | ▲ | 9.7 |
| Stryd y Frenhines, Caerdydd | 2,912,364 | 3,431,518 | ▲ | 17.8 |
| Casnewydd (Gwent) | 2,696,620 | 2,846,440 | ▲ | 5.6 |
| Abertawe | 2,158,886 | 2,204,216 | ▲ | 2.1 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 1,526,622 | 1,636,296 | ▲ | 7.2 |
| | | | | |
| Cae Caerdydd | 1,302,676 | 1,720,744 | ▲ | 32.1 |
| Cathays | 946,274 | 1,159,088 | ▲ | 22.5 |
| Caerffili | 771,930 | 811,826 | ▲ | 5.2 |
| Pontypridd | 864,294 | 934,160 | ▲ | 8.1 |
| Ynys y Barri | 753,404 | 867,598 | ▲ | 15.2 |
| | | | | |
| Trefforest | 752,308 | 790,574 | ▲ | 5.1 |
| Castell-Nedd | 816,748 | 882,106 | ▲ | 8.0 |
| Bangor (Gwynedd) | 662,060 | 667,382 | ▲ | 0.8 |
| Penarth | 626,950 | 739,030 | ▲ | 17.9 |
| Aberdâr | 571,746 | 581,388 | ▲ | 1.7 |
| | | | | |
| Radur | 538,692 | 735,734 | ▲ | 36.6 |
| Y Barri | 533,732 | 579,554 | ▲ | 8.6 |
| Y Rhyl | 520,198 | 520,124 | ▼ | 0.0 |
| Parcffordd Port Talbot | 516,610 | 547,228 | ▲ | 5.9 |
| Merthyr Tudful | 512,754 | 515,868 | ▲ | 0.6 |
| Gorsafoedd Eraill yng Nghymru | 19,585,590 | 21,108,366 | ▲ | 7.8 |
| **Pob gorsaf yng Nghymru** | **52,522,204** | **57,483,924** | ▲ | **9.4** |
| Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru | | | | |

## Meysydd Awyr a Phorthladdoedd

Mae seilwaith trafnidiaeth Gogledd Cymru yn cynnwys porthladd a phorthladd fferi ac 1 o'r 2 faes awyr yng Nghymru. Caergybi yw'r porthladd mwyaf pwysig yng Nghymru yn ôl cyfaint nwyddau, a dyma'r prif borthladd ar gyfer cludiant nwyddau a theithwyr môr rhwng y DU ac Iwerddon.

### Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am gludiant yn eu hardaloedd?

**Ynys Môn a Gwynedd** – Mae'r data'n dangos bod 82% o gartrefi yn Ynys Môn yn berchen ar un car neu fan o leiaf, sydd fymryn mwy na'r ganran yng Ngwynedd, sef 79%. Mae gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn agwedd bwysig i ardaloedd Ynys Môn a Gwynedd.
**Sir y Fflint** – Byddant yn adolygu eu polisïau trafnidiaeth eu hunain er mwyn annog gweithwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymudo ac er mwyn ei gwneud yn bosibl i weithio'n fwy ystwyth i helpu i leihau tagfeydd traffig.
**Conwy a Sir Ddinbych** – Nid yw 40.9% o gartrefi preifat sydd â phensiynwyr yn byw ynddynt yn berchen ar gar.
**Wrecsam** – Er gwaethaf y cynnydd yn y traffig, mae'r ffigyrau cyffredinol yn awgrymu bod gostyngiad yn nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd a'r anafusion. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch y cynnydd mewn damweiniau a achosir gan fod y gyrrwr yn cael ei lygad-dynnu gan ei ffôn symudol. Bydd Wrecsam yn edrych ar gysylltiadau trafnidiaeth gwell ledled y bwrdeistref sirol er mwyn helpu i gymunedau fod yn llewyrchus eto.

### Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub?

Mae'n hollbwysig fod staff yr Ystafell Reoli yn cael gwybod am ffyrdd sydd wedi cau ac am ddargyfeiriadau er mwyn iddynt allu cyfeirio cerbydau ymateb brys ar y llwybr cyflymaf sydd ar gael ar y pryd. Mae'n bwysig cynnal sgiliau'r staff er mwyn sicrhau bod modd tynnu pobl allan os ydynt yn sownd mewn cerbydau, ac i ddilyn y datblygiadau o ran dulliau a chyfarpar torri.

Nid cerbydau ffordd yn unig sydd mewn digwyddiadau brys; bydd staff yr ochr weithredol yn mynd at ddigwyddiadau brys ar y rheilffyrdd hefyd. Gallai hyn ddigwydd yn yr orsaf, ar fannau croesi, neu bydd angen achub pobl o gerbyd trên sydd wedi dod oddi ar y cledrau. Gallai sefyllfaoedd o'r fath ddigwydd yn unrhyw le ar y cledrau, gan gynnwys mewn twneli.

## Amgylchedd Gogledd Cymru

### Amgylchedd

Mae'r Gogarth, Arfordir Ynys Môn, Mynydd Tŵr, Bae Aberffraw a Llŷn wedi cael eu dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif. Mae tri safle treftadaeth y byd o werth cyffredinol neilltuol yng Nghymru, ac mae dau o'r rhain yng Ngogledd Cymru. Gyda'i gilydd, mae cestyll Biwmares, Conwy, Caernarfon a Harlech, ynghyd â'r muriau o gwmpas Conwy a Chaernarfon, wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd.

| Cestyll a Waliau Tref y Brenin Edward | Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte |
|---|---|
|  |  |
| FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru | |

Mae arfordir gogledd Cymru yn risg naturiol i lifogydd, yn enwedig pentref Fairbourne yng Ngwynedd. Mae Bwrdd Prosiect Fairbourne – Symud Ymlaen, dan arweiniad Cyngor Gwynedd, wedi nodi bwriad i amddiffyn pentref Fairbourne yng Ngwynedd am gyfnod o 40 mlynedd (o 2014 ymlaen). Mae llawer o bobl yn bryderus am y risg o lifogydd yn eu hardaloedd eu hunain, ac fel gwasanaeth brys mae dyletswydd arnom i ymateb i lifogydd neu ddigwyddiadau lle mae angen achub o ddŵr a lle mae perygl i fywyd.

**Beth ddywedodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am yr amgylchedd yn eu hardaloedd?**

**Conwy a Sir Ddinbych** – Amcangyfrifir fod 12,500 o eiddo â risg ddifrifol o lifogydd, ac mae 21,000 â risg isel neu ganolig. Mae coetiroedd yn gorchuddio tua 13.5% o'r ddwy sir, sy'n debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. Amcangyfrifir fod tua 15 miliwn o bobl yn ymweld â Chonwy a Sir Ddinbych bob blwyddyn.

**Sir y Fflint** – Mae rhyw 8,400 eiddo â risg o lifogydd. Mae safleoedd madfallod dŵr yn Aber Dyfrdwy, Mynydd Helygain, a Glannau Dyfrdwy a Bwcle wedi cael eu dynodi'n fwriadol yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Hefyd, mae 23 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu hystyried yn safleoedd ecolegol o bwys cenedlaethol. Er eu bod wedi'u dynodi fel hyn, mae llawer o rywogaethau'n dirywo, a hynny yn bennaf oherwydd amaethu dwys, trefoli, rhywogaethau goresgynnol a newid yn yr hinsawdd.

**Ynys Môn a Gwynedd** – Mae allyriadau carbon yn cael eu mesur mewn cilodunelli (kt) o garbon deuocsid, $CO_2$. 35.6.7kt $CO_2$ yw'r allyriadau y pen o'r boblogaeth yn Ynys Môn, a 7.0kt $CO_2$ yng Ngwynedd. 6.6 $CO_2$ yw'r cyfartaledd yng Nghymru.

**Wrecsam** - Mae 1,610 eiddo â risg o lifogydd. Mae gwasanaeth rhybuddio uniongyrchol yn cael ei ddarparu i 537 eiddo mewn tair ardal o fewn yr amlinelliad llifogydd eithafol. Mae tua 80,000 tunnell o wastraff trefol yn cael ei gynhyrchu yn Wrecsam bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, Wrecsam yw'r degfed uchaf o ran cyfraddau ailgylchu allan o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru.

**Pam mae hyn o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub ?**

Gall achosion o lifogydd arwain at nifer fawr o alwadau i'r Ystafell Reoli. Yn ystod storm 'Ciara', fe wnaeth British Telecom roi ei 'Broses Hidlo Llifogydd' ar waith, lle roedd gweithwyr BT yn holi galwyr 999 cyn cysylltu â'r Ystafell Reoli, a hynny i geisio hidlo'r galwadau nad oedd yn rhai brys. Hefyd, mae staff yr Ystafell Reoli wedi cael hyfforddiant ar drin galwadau sy'n eu cyraedd pan fo'r galwr yn defnyddio'r ap 'What3Words'. Gall y dechnoleg newydd yma ganfod ble yn union mae'r unigolyn, a gall fod yn amhrisiadwy pan fo'r unigolyn hwnnw yn methu dweud ble mae.


## GAIR AM AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Isod ceir cipolwg o adnoddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i lefelau gweithgarwch yn ystod 2019/20; caiff y rhain eu hegluro'n fanylach yn nhudalennau 47 i 54.

| Gorsafoedd Tân | Peiriannau Tân | Galwadau 999 a Ymdriniwyd â hwy | Staff Gwasanaeth Tân |
|---|---|---|---|
| 44 | 54 | 12,304 | 876 |

| Argyfyngau a Fynychwyd | Tanau | Camrybuddion | Gwasanaeth Arbennig |
|---|---|---|---|
| 4,872 | 1,950 | 2,274 | 648 |

**Gorsafoedd Tân**
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu 44 gorsaf dân ledled ei ardal gwasanaeth.
**Gorsafoedd Tân Amser Cyflawn -** Mae'r rhain ar agor bob awr o'r dydd a'r nos.
Mae pum gorsaf yn cael eu chriwio rhwng hanner dydd a 10:00pm, ac yn gweithredu fel gorsafoedd wrth gefn y tu allan i'r oriau hyn.
**Gorsafoedd Tân Wrth Gefn –** Mae 36 o orsafoedd tân yn cael eu gweithredu ar sail system ar-alw. Rheolir y gwaith o anfon peirannau a chriwiau tân at argyfyngau yn ganolog gan staff yn ein hystafell reoli sydd yn gweithio yn Llanelwy.




**Staffio**

| **Ar 31 Mawrth 2020** | **Cyfateb i gryfder llawn amser** | **Cyfrif pennau staff unigol** |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn (WDS) | 260.00 | 260 |
| Gweithredol Wrth Gefn (RDS/ar-alw) | 364.00 | 438 |
| Cynnal ac Atal | 28.75 | 31 |
| Ystafell Reoli | 137.95 | 147 |
| **Cyfansymiau** | **790.70** | **876** |

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi eu categoreiddio fel diffoddwyr tân ar-alw; mae hyn ymysg y ffigwr uchaf wrth gymharu ag awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

**Dengys y graff gyfanswm y diffoddwyr tân ar-alw (yn ôl cryfder) fel canran o gyfanswm y gweithlu, fesul awdurdod tân ac achub yn Lloegr a Gogledd Cymru.**



# Y GWASANAETHAU A DDARPERIR GAN YR AWDURDOD

## Atal Tanau

Rhaid i awdurdodau tân ac achub drefnu i hybu diogelwch tân yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am atal tanau a dweud wrthynt am y ffordd orau o ymateb os oes tân yn digwydd.

## Gorfodi Diogelwch Tân

Mae dyletswydd ar awdurdodau tân ac achub i orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig (gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd ac ati). Mae'r ddyletswydd yn cynnwys arfer pwerau i roi hysbysiadau addasu, hysbysiadau gorfodi a hyd yn oed hysbysiadau gwahardd os ydynt yn gweld bod y trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol.

## Ymateb Brys

Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac ar gyfer anfon staff hyfforddedig gyda'r offer cywir i ddiffodd tanau ac i amddiffyn bywyd ac eiddo yn y tanau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau i achub pobl mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ar gyfer eu hamddiffyn rhag niwed difrifol.

## Cynllunio ac ymateb i argyfyngau eraill

Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer dihalogi pobl ar raddfa fawr ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi dymchwel. Rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau mawr mewn rhannau eraill o'r DU.

Fel ymatebwyr 'Categori 1' dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae dyletswyddau ar awdurdodau tân ac achub hefyd mewn perthynas â digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth difrod difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

## CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION GWELLA A LLESIANT

Yn yr adran hon cyflwynir cynnydd yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant cyfunol ar gyfer 2019/20. Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2019/20 a dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31 Hydref 2020.

Er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei ddau amcan gwella a llesiant tymor hir, datblygwyd tri cham ynghyd â nifer o gamau gweithredu penodol i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn i gyflawni pob un o'r camau hyn.

B. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n deg ac ar sail risg.

**A.** Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a bod yn ddiogel os bydd tanau'n digwydd;

n

Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi.

Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod trwy gytuno ar gyllideb ar gyfer 2019/20 sydd yn cynnal y ddarpariaeth bresennol (h.y. heb gau gorsafoedd na chael gwared ar beiriannau tân), trwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewnol pellach a chynyddu cyfraniadau ariannol yr awdurdodau cyfansoddol.

Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

## Amcan Gwella a Llesiant A: cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd

**Cam: darparu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ataliol i geisio helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag tanau damweiniol mewn lle byw.**

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: cynnal 20,000 o archwiliadau diogel ac iach, gydag 25% o leiaf o'r rheini yn cael eu cynnal i gartrefi a atgyfeiriwyd i'r Gwasanaeth gan asiantaeth arall.**

Cafodd 19,004 o archwiliadau diogel ac iach eu cynnal yn 2019/20, a chafodd 5,786 (30.4%) o'r rheini eu cynnal i gartrefi a atgyfeiriwyd gan asianaethau sy'n bartneriaid inni. Yn aml, mae'r atgyfeiriadau hyn yn rhan o becyn ehangach o gymorth i'r aelodau mwyaf bregus o'r gymuned. Yn ogystal â gwneud atgyfeiriadau, fe wnaeth staff hyfforddedig o asiantaethau sy'n bartneriaid inni gynnal 127 o archwiliadau diogel ac iach eu hunain, ar ran yr Awdurdod.

O'r 19,004 o archwiliadau diogel ac iach a gynhaliwyd, roedd 7,676 wedi cael eu cynnal oherwydd atgyfeiriadau isel eu risg, roedd 5,595 yn y categori risg canolig, ac roedd 5,733 yn y categori risg uchel, a rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yn unol â hynny.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: gwella effeithiolrwydd yr archwiliadau diogel ac iach drwy ymchwilio i'w hyd a'u lled, a chytuno ar egwyddorion diogel ac iach ledled Cymru i gynorthwyo i gael dulliau cyson wrth eu darparu.**

Mae 'Archwiliadau Diogel ac Iach' yn ymgorffori negeseuon traddodiadol diogelwch tân (sy'n cynnwys gosod larymau tân) ond maent hefyd yn cynnwys cyngor ar faterion iechyd a llesiant yn ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu, atal llithro, baglu a chwympo, yn ogystal ag asesu achosion o orgasglu (*hoarding*) ac atgyfeirio i asiantaethau cefnogol os oes angen. Mae'r archwiliadau'n cael eu cynnal gan staff arbenigol o'r gwasanaeth tân ac achub, sydd wedi cael eu hyfforddi i gefnogi pobl a allai fod wedi dioddef profiadau niweidiol mewn plentyndod, problemau iechyd meddwl neu sydd ag arwyddion o faterion bregus eraill. Hefyd, mae'r staff yn gallu darparu cyngor cyffredinol ynghylch iechyd a ffitrwydd.

Caiff archwiliadau diogel ac iach eu cynnig i drigolion yn rhad ac am ddim, a hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac maent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent wedi cael eu dylunio i gael dull cyfannol o leihau'r niwed rhag tân, gan gwmpasu materion ehangach sy'n effeithio ar ddiogelwch pobl yn eu cartrefi. Mae staff arbenigol o'r enw 'Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref' yn cael hyfforddiant yn rheolaidd i sicrhau cysondeb yn y gwaith o gynnal archwiliadau diogel ac iach. Cynhelir digwyddiadau gloywi yn rheolaidd er mwyn cofnodi'r hyn a ddysgir o brofiadau'r tîm. Caiff enghreifftiau o arferion da eu rhannu, gan gynnwys achlysuron pryd mae'r Gweithwyr Cymorth Diogelwch Tân wedi mynd i ddigwyddiadau eithriadol wrth eu gwaith.

**Gweithio mewn partneriaeth i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi**

Yn ystod 2019/20, fe wnaeth staff o Swyddfa Diogelwch Cymunedol Wrecsam a Sir y Fflint groesawu dau fyfyriwr iechyd galwedigaethol yn eu hail flwyddyn ym Mhrifysgol Glyndŵr. Rhoddwyd lleoliad gwaith am wyth wythnos i'r myfyrwyr, fel rhan o ymrwymiad yr Awdurdod i helpu'r agenda iechyd cyhoeddus ehangach ac i amddiffyn cymunedau yn gyffredinol. Cafodd y bartneriaeth ei lansio yn 2017 ac mae wedi helpu'r bobl sy'n cymryd rhan yn y lleoliadau, yn ogystal â'u cyd-fyfyrwyr, i ddysgu mwy am archwiliadau diogel ac iach ac i fod yn gallu atgyfeirio eu cleifion pan fo angen.

Y nod yw bod y bobl sy’n cael y lleoliad yn mynd â phopeth maent wedi’i ddysgu gyda nhw, a’u bod yn defnyddio hynny yn eu gwaith bob dydd ar ôl iddynt gael swydd, gan rannu cynghorion ar ddiogelwch tân pan fyddant yn ymweld ag unigolion a allai fod yn agored i niwed ledled y rhanbarth. Roedd y cyfle hwn yn galluogi’r staff i gael persbectif newydd ac i ddysgu gan bobl sy’n astudio disgyblaeth arall. Mae croes-beillio gwaith a wneir mewn gwahanol sectorau yn allweddol i ddiogelu cymunedau. Dyma enghraifft arall o’r modd y mae rhannu gwybodaeth, a chydweithio, yn gallu helpu’r bobl sydd angen cymorth fwyaf.

**Lansio cynllun peilot hyrwyddwyr gwirfoddol cymunedol**

Yn ystod mis Awst 2019, cafodd cynllun peilot newydd ei lansio yn Sir Ddinbych i helpu i dargedu unigrwydd ac i weithio gydag aelodau bregus o’r gymuned sy’n aml yn gwneud galwadau i’r gwasanaethau brys. Mae unigrwydd yn broblem fawr yng Nghymru oherwydd credir bod tua 17% o’r boblogaeth, sef 440,000 o bobl, yn unig. Mae unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn gallu arwain at nifer o broblemau corfforol a seicolegol, gan gynnwys marw cyn pryd, problemau cysgu, pwysedd gwaed uchel, ansawdd bywyd gwael, mwy o risg o drawiad ar y galon a strôc, iselder a hunanladdiad.

Mae’r cynllun hyrwyddwyr gwirfoddol cymunedol yn rhan o waith ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth brys, ac mae’n golygu bod unigolion o grwpiau gwirfoddol sydd wedi’u sefydlu eisoes yn cynorthwyo pob gwasanaeth brys i gyfathrebu negeseuon a allai fod yn hollbwysig, gan helpu i ddiogelu trigolion Gogledd Cymru.

Nod y cynllun yw delio â’r nifer uchel o alwadau brys sydd ddim angen ymateb brys. Drwy weithio gyda phobl sy’n galw’n aml, er mwyn cynnig sicrwydd ac i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel drwy gynnal archwiliad diogel ac iach, archwiliad diogelwch y cartref ac asesiad o’r risg y gallai’r person gael codwm gartref, gobeithio y bydd modd gostwng nifer y galwadau sy’n dod i ni.

## Camau gweithredu yn ystod y flwyddyn: ystyried cysoni’r meini prawf ar gyfer graddio risgiau mewn archwiliadau diogel ac iach ledled Cymru

Mae’r gwaith o gategoreiddio risgiau wedi aros yn uchel ar yr agenda i’r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru.

Parhawyd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu’r rhaglen risgiau cymunedol. Prosiect cenedlaethol yw hwn, i geisio datblygu offer i greu diffiniad cenedlaethol o risg a dulliau asesu risg er mwyn cael ffordd gyson o gynllunio gwaith rheoli risg.

Ledled Cymru, mae’r meini prawf ar gyfer sgorio risgiau cyn cynnal archwiliad diogel ac iach wedi bod yn gyson ar y cyfan, gan fod pob gwasanaeth tân ac achub yn defnyddio’r adnoddau sydd ar gael iddo i gwblhau atgyfeiriadau yn nhrefn blaenoriaeth.

Mae’r tîm diogelwch cymunedol yn parhau i ddysgu o brofiadau blaenorol, gan nodi’r ffactorau cyfrannol a allai olygu bod pobl mewn mwy o berygl o niwed o dân. Drwy ddeall y ffactorau hyn, gellir canolbwyntio adnoddau ar weithgareddau sy’n cael yr effaith fwyaf, gan leihau risg a bregusrwydd mewn cymunedau.

Drwy’r Grŵp Diogelwch yn y Cartref, mae’r gwaith yn parhau ar ganfod ffyrdd o gael mwy o gysondeb yn yr arferion ac ar safoni ar draws Cymru.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: cytuno, ar sail Cymru gyfan, pa negeseuon diogelwch cymunedol fydd yn cael eu defnyddio gan y tri ATA yng Nghymru er mwyn ceisio helpu i ostwng nifer y prif danau**

Mae gwaith ataliol yn canolbwyntio ar leihau risgiau er mwyn arbed bywydau ac atal anafiadau. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu addysg diogelwch, ynghyd ag ymyriadau cadarnhaol sy'n helpu i wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae'r Awdurdod wedi integreiddio ei weithgareddau ataliol gymaint â phosib gyda gwaith sefydliadau ac asiantaethau eraill sydd â ffocws tebyg ar ddiogelwch cymunedol. Yn hytrach na chynnal ei ddadansoddiad ynysig ei hun o'r risg, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod manteision yn gysylltiedig â chanfod a lliniaru risgiau ar y cyd. Drwy weithio â phartneriaid, mae'r Awdurdod yn gallu canfod pobl sydd â mwy o risg o dân a pheryglon eraill, ac mae'n gallu targedu archwiliadau diogel ac iach er mwyn cynorthwyo i newid ymddygiad a gostwng nifer y tanau damweiniol.

Mae staff allweddol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â staff o sefydliadau eraill sy'n bartneriaid i ni, yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd o grwpiau llywio ymgyrchoedd lleol er mwyn cytuno ar negeseuon diogelwch a gwaith ymgyrchoedd, ac er mwyn eu cysoni gyda strategaethau ymgyrchu lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu ei waith ataliol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

**Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddosbarthu negeseuon diogelwch**

Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod am ddigwyddiadau y maent yn mynd atynt, mae'r Awdurdod wedi cael ymateb cadarnhaol gan gymunedau ar-lein i'r negeseuon diogelwch a rannwyd yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn digwyddiad yng Nghaergybi, lle cafodd tân ei achosi gan liniadur a oedd yn pweru ar y soffa, cafodd lluniau o'r difrod eu rhannu'n eang. Cafodd y lluniau eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, ac roeddent yn gyfle i ddangos y ffordd i bobl at gyngor sylfaenol am ddiogelwch tân, sef sut gallai mân newidiadau fod yn gymorth i atal tân tebyg rhag digwydd eto.

Cafodd y negeseuon a'r lluniau eu rhannu gannoedd o weithiau ar Facebook, cawsant eu haildrydar ar Twitter, a chawsant eu hoffi ar Instagram, gan gyrraedd degau o filoedd o ddefnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol. Cawsant sylw hefyd yn y cyfryngau lleol.

**Codi ymwybyddiaeth am ba mor effeithiol yw systemau chwistrellu dŵr**

Yn ystod mis Mai 2019, fe wnaeth Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân gynnal ei wythnos genedlaethol flynyddol ar gyfer systemau chwistrellu dŵr, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y cyhoedd yn deall beth yw systemau chwistrellu, beth yw eu pwrpas, sut maent yn gweithio, a beth yw'r manteision.

Roedd yr ymgyrch hefyd yn codi ymwybyddiaeth am y ffaith fod deddfwriaeth ynghylch systemau chwistrellu dŵr yn amrywio rhwng gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, cyflwynwyd rheoliadau yn Ebrill 2014 sy'n golygu bod rhaid gosod systemau chwistrellu awtomatig mewn eiddo newydd sydd â risg uchel, megis cartrefi gofal, adeiladau sydd wedi troi'n neuaddau preswyl i fyfyrwyr, tai preswyl a rhai hosteli. Yn Ionawr 2016, daeth yn orfodol i bob tŷ a fflat newydd gael systemau chwistrellu hefyd.

Mae'r Awdurdod wedi cefnogi'r ymgyrch hon ar draws y sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i gyfleu neges syml, sef mae'n well rheoli tân wrth iddo gynnau nag atgyweirio'r difrod ar ôl iddo ledaenu.

**Lansio Strategaeth Lleihau Llosgi Bwriadol newydd**
Yn ystod 2019/20, fe wnaeth y Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Llosgi Bwriadol gyhoeddi'r bedwaredd genhedlaeth o'r strategaeth lleihau llosgi bwriadol ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r strategaeth yn cydlynu cynllun cyflawni er mwyn lleihau rhagor ar y risg o losgi bwriadol mewn nifer o ardaloedd dan sylw.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys partneriaid o'r tri gwasanaeth tân ac achub a'r heddluoedd yng Nghymru, y Swyddfa Dywydd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae nifer y tanau glaswellt bwriadol wedi cael ei ostwng yn fawr ers 2015 – gyda'r Bwrdd yn diolch am y llwyddiant i'r dull cydweithredol a ddefnyddir gan ei dasglu amlasiantaethol, sef Ymgyrch Dawns Glaw.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: drwy ddadansoddi patrymau digwyddiadau blaenorol, canfod a cheisio gostwng nifer yr achosion a ddisgwylir o gategorïau penodol o danau.**

Ymchwilir i bob tân difrifol fel mater o drefn, a hynny er mwyn gwirio pa mor addas oedd y trefniadau ymateb ac er mwyn dysgu gwersi i wella diogelwch cymunedol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli hefyd ar grwpiau cenedlaethol sy'n ystyried beth sy'n dod i'r amlwg o ran tueddiadau a risgiau i'r cyhoedd. Hefyd, mae'r Grŵp Lleihau Risgiau Cymunedol yn fforwm ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gyfan, sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â diogelwch cymunedol ac sy'n cytuno ar gyfeiriad strategaethau a negeseuon diogelwch ar gyfer Cymru gyfan.

**Cydnerthedd Cenedlaethol – Tanau yn yr Awyr Agored**

Mae rhaglen cydnerthedd cenedlaethol yn bodoli yn y Deyrnas Unedig, a hynny i geisio cynyddu cydnerthedd yn y maes tân ac achub wrth ddelio ag amrywiaeth o argyfyngau, boed naturiol neu fwriadol. Yng Nghymru, caiff arian ei ddarparu bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydnerthedd cenedlaethol.

Mae'r rhaglen wedi darparu Pympiau Cyfaint Mawr (HVPs), sydd wedi cael eu lleoli'n strategol ledled y wlad i'w defnyddio i ddelio â nifer o faterion, o lifogydd i danau yn yr awyr agored. Pan fydd digwyddiadau ar raddfa na ragwelwyd, neu pan fo llawer o argyfyngau'n digwydd yr un pryd, gan effeithio ar gyfaint neu bwysedd y cyflenwad dŵr lleol, mae'r Pympiau yn darparu cydnerthedd a galluedd ychwanegol i gyflenwi dŵr i safle'r tân.

Yn dilyn y cynnydd yn y tanau yn yr awyr agored yn 2018, canfu'r rhaglen fod modd defnyddio'r bibell o'r Pwmp mewn rhai senarios gweithredol i gynorthwyo asiantaethau sy'n bartneriaid i ni gyda'u gwaith pwmpio, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, sydd â nifer fawr o bympiau ar drelar yn eu fflyd genedlaethol ar hyn o bryd. Dim ond darnau bach o bibell sydd ar y pympiau yma, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i bwmpio'n bell. Cynhaliwyd gwaith ymchwil i weld pa mor bosibl fyddai cysylltu'r cyfarpar er mwyn gwneud y bibell gyflenwi yn hirach. Darparwyd arian wedyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru i brynu teclyn cyplu i wneud y pibelli yn gydnaws â'i gilydd. Mae'r llun (ar y dde) yn dangos sut gellir defnyddio'r teclyn cyplu i gysylltu â pheiriannau amaethyddol hefyd, a'u defnyddio i ddosbarthu dŵr i ardaloedd anghysbell lle na fyddai peiriannau tân yn gallu cyrraedd. Mae hyn yn werthfawr yn ystod digwyddiadau hirfaith, megis tanau yn yr awyr agored.



**Cyfiawnder Ieuenctid yn tynnu sylw at ganlyniadau tanau bwriadol**
I ymateb i bryderon am losgi bwriadol, lansiwyd y rhaglen Cyfiawnder Ieuenctid yn 2019. Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Ymgysylltu Creadigol yn Theatr Clwyd i greu gweithdy rhyngweithiol yn para dwy awr i dynnu sylw disgyblion ysgol at ganlyniadau tanau bwriadol.

Cafodd y rhaglen Cyfiawnder Ieuenctid ei noddi gan Sefydliad Scottish Power, a bu'n teithio o gwmpas ysgolion cynradd ledled y Gogledd dros gyfnod o bythefnos. Roedd yn cynnwys drama fer i dynnu sylw at sefyllfa o dân bwriadol a'r broses sy'n dilyn pan fo rhywun yn ei gael yn euog. Ein gobaith yw bod pobl ifanc ledled y rhanbarth yn uniaethu â'r dull deinamig hwn o addysgu, ac y bydd hyn yn gymorth i gael gwared ar broblem llosgi bwriadol ledled Gogledd Cymru.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: datblygu rhagor ar yr adnabyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at wneud rhywun yn agored i danau mewn cartrefi, a defnyddio hyn i ddarparu negeseuon sydd wedi'u targedu a'u hamseru'n dda i feithrin ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r canlyniadau ac i geisio dylwanwadu a newid ymddygiadau.**

Drwy ddeall y ffactorau a'r risgiau sy'n cyfrannu at wneud person yn agored i niwed, gellir teilwra'r cyfathrebu a'r cyngor i'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar ymgyrchoedd penodol i gynorthwyo i leihau'r risg o niwed.

Yn aml, rhaid ymweld dro ar ôl tro ag unigolion sydd â risg uwch o dân, ac mae staff diogelwch cymunedol yn defnyddio eu profiad, eu gwybodaeth a'r amrywiaeth o ymyriadau diogelwch sydd ar gael iddynt er mwyn ceisio gwneud y cartref mor ddiogel â phosibl. Yn anffodus, mae rhai unigolion yn cael trafferth newid eu hymddygiad ac yn dal i brofi tanau gartref.

**Astudiaeth Achos**

Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd criw ei anfon at larymau mwg a oedd yn canu mewn fflat yn ardal Conwy. Pan wnaethant gyrraedd, gwelodd y criwiau fod tân bach ar y soffa yn yr ystafell fyw wedi cael ei achosi gan sigaréts a oedd wedi cael eu gadael yn esgeulus, ynghyd â deunyddiau llosgadwy. Sylwodd y criwiau ar flanced yn gwrthsefyll tân ar y soffa, ac roedd y cofnodion yn dangos ein bod wedi ymweld â'r preswylydd ddwywaith o'r blaen a'i fod wedi cael archwiliad diogel ac iach. Ystyrid bod y preswylydd yn person â risg uwch oherwydd ei fod yn oedrannus, yn byw ar ei ben ei hun, yn defnyddio ocsigen ac yn ysmygu'n drwm. Ymddangosai hefyd fod ganddo broblemau â'i gof. Roedd hyn eisoes wedi arwain at ddigwyddiadau yn ymwneud â choginio ac roedd olion llosgi, hen a newydd, ar y soffa, ar y llawr ac o gwmpas y gwely. Felly, yn ystod yr ymweliad, darparwyd pecyn gwely yn gwrthsefyll tân, blanced yn gwrthsefyll tân, a dau flwch llwch. Gan fod risg yn parhau yn yr eiddo, gosodwyd dwy system anwedd yn yr eiddo, sef un yn yr ystafell wely ac un yn yr ystafell fyw.

**Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych**

Mae staff o dîm lleihau llosgi bwriadol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych i ddatblygu menter newydd i geisio ymgysylltu â phobl ifanc a'u haddysgu, er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth o ganlyniadau tanau bwriadol.

Mae'r myfyrwyr yn cael achrediad lefel un ar ôl cwblhau'r cwrs. Drwy weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych, mae'r tîm lleihau llosgi bwriadol wedi gallu helaethu'r cymhwyster a pharhau i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Gogledd Cymru, tra'n eu cynorthwyo i ennill cymhwyster cydnabyddedig.

**Yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol**

Yn ystod Tachwedd 2019, roedd yr Awdurdod yn weithgar yn cefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol i geisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion diogelu a sut gall pawb wneud ei ran yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ynghyd â sicrhau eu llesiant. Rhan bwysig o ddiogelu yw sicrhau bod pobl yn cael cymorth i fyw bywydau llawn a hapus.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dynnu sylw at bwysigrwydd materion diogelu ac i wneud ei ran i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae'r staff wedi cael mewnbwn ffurfiol, a oedd yn cynnwys cyflwyniad a thasgau grŵp rhyngweithiol i ddatblygu dealltwriaeth. Aeth y staff hefyd i gynhadledd ar ddiogelu yng Nghanolfan Fusnes Conwy, gan ddysgu o storïau gwir lle roedd ymateb amlasiantaethol wedi cefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod misoedd yr haf, aeth y staff i amryw o ddigwyddiadau, gan gynnwys Eisteddfod Gydwladol Llangollen, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst, Sioe Môn a sioeau amaethyddol Dinbych a Fflint, a Meirionnydd.
Y thema yn y digwyddiadau eleni oedd diogelwch trydanol, a gofynnid i ymwelwyr â stondin yr Awdurdod lenwi cwis diogelwch trydanol a oedd yn canolbwyntio ar declynnau pweru, gorlwytho ceblau estyniad a phrofi larymau mwg.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, a meithrin partneriaethau newydd pan fo hynny'n briodol.**

Mae'r Awdurdod yn hybu'r gwaith o ddatblygu partneriaethau a gwaith cyd-gysylltiedig gydag asiantaethau perthnasol sydd â diddordeb mewn creu, hyrwyddo a chynnal cymunedau mwy diogel. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tri Rheolwr Partneriaethau i sicrhau bod perthnasoedd yn parhau'n gyfoes ac yn effeithiol.

**Gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru**

Mae trefniadau cydweithio newydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, drwy'r rhaglen cydnerthedd cenedlaethol a amlinellir uchod, wedi cynyddu'r cydnerthedd yng Nghymru i ddelio â thanau yn yr awyr agored a llifogydd, a byddant yn darparu nifer o wahanol fanteision busnes i bob sefydliad.

Yn y dyfodol agos, gobeithiwn y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn canfod lleoliadau i'r unedau pwmpio ar drelar sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at yr offeryn adrodd ar gyfer cydnerthedd cenedlaethol fel eu bod ar gael i'w hanfon allan drwy'r gweithdrefnau presennol.

Daeth staff o Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd i arddangosiad yng Ngorsaf Dân Caergybi i ddysgu mwy am yr hyn mae'r Unedau Amddiffyn yr Amgylchedd arbenigol yn gallu ei wneud gydag offer arbenigol i ddelio â gollyngiadau cemegol a allai niweidio'r amgylchedd a bywyd gwyllt. Fel rhan o'u datblygiad, rhaid i swyddogion sydd newydd gael eu penodi yng Nghyfoeth Naturiol Cymru fynychu arddangosiad ymarferol o'r offer sydd ar yr unedau, ynghyd â'r wybodaeth theoretig sydd ei hangen i'w galluogi i ddelio'n effeithiol ac effeithlon â digwyddiadau.

**Cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Efrog**

Yn ystod y llifogydd niferus a gafodd cymunedau yn Ne Swydd Efrog yn ystod 2019, cafodd criwiau o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu defnyddio dan drefniadau cydnerthedd cenedlaethol i gefnogi'r ymateb i'r llifogydd. Bu staff o Orsafoedd Tân Glannau Dyfrdwy a Bangor yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr o Wasanaeth Tân ac Achub De Swydd Efrog, Asiantaeth yr Amgylchedd a'u partneriaid. Cawsant y dasg o gefnogi ymateb amlasiantaethol i sicrhau bod gorsaf bwmpio allweddol yn parhau'n weithredol yn un o'r ardaloedd lle roedd llawer o lifogydd, a chawsant eu hanfon i Fishlake hefyd i ddarparu cyflenwadau brys i'r trigolion, ac i Orsaf Dân Doncaster i ddarparu'r gallu i achub o ddŵr. Mater allweddol yw gweithio mewn partneriaeth ar adeg o argyfwng, ac mae'r ymateb i'r digwyddiadau hyn yn dangos sut mae asiantaethau ledled y DU yn gallu, ac wedi, dod ynghyd pan fo angen er mwyn amddiffyn a gwasanaethu cymunedau.

**Cwrs Gweithredwyr Cychod Achub o Ddŵr ar gyfer Cymru gyfan**

Yn ystod 2019, bu'r adran hyfforddi a datblygu yn gweithio ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De a Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (yr RNLI) i ddatblygu cwrs ar gyfer gweithredwyr cychod achub o ddŵr. Cafodd y cwrs ei greu i uwchsgilio'r staff presennol i fod yn hyfforddwyr er mwyn iddynt hwythau ddarparu hyfforddiant i weithredwyr cychod newydd yn eu gwasanaethau eu hunain.

Daeth staff o'r tri gwasanaeth tân ac achub ar y cwrs cyntaf, a bu'r RNLI yn asesu ar ddau ddiwrnod olaf y cwrs. Dyma enghraifft o sut mae gwaith ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru wedi cael canlyniad cadarnhaol.

**Ymarferiad amlasiantaethol i hybu gwaith mewn partneriaeth**

Yn 2019, ymunodd staff gyda chynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Ganolfan Argyfwng a Stena Line ar gyfer ymarferiad amlasiantaethol i helpu i baratoi ar gyfer digwyddiad ym Mhorthladd Caergybi. Bu criwiau o Gaergybi, Rhosneigr a Llangefni yn ymuno â swyddogion o bob rhan o'r Gwasanaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o asiantaethau sy'n bartneriaid i ni, ar gyfer y senario, sef adroddiad o ffrwydriad gyda'r posibilrwydd o ymosodiad terfysgol, a hynny'n sbarduno rhybudd diogelwch uwch a oedd yn cynnwys ymateb gan Swyddog Cyswllt Rhyngweithredu Cenedlaethol (NILO).

**Siôn Corn i Bobl Hŷn**

Yn dilyn llwyddiant yn y blynyddoedd blaenorol, cymerodd yr Awdurdod ran eto yn y fenter 'Siôn Corn i Bobl Hŷn' yn ardal Conwy yn 2019. Y syniad y tu ôl i'r fenter yw bod aelodau'r cyhoedd yn rhoi anrhegion, a'r Gwasanaeth yn dosbarthu'r rheini, ar adeg y Nadolig i bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain. Roedd y partneriaid yn cynnwys Cartrefi Conwy, Y Groes Goch Brydeinig, Contact The Elderly ac Age Connect – ac am y bumed flwyddyn helpodd y staff i ddosbarthu'r anrhegion a hefyd i gynnal archwiliad diogel ac iach ar yr un pryd. Roedd y cynllun hefyd yn annog plant i wneud cardiau â llaw, i'w dosbarthu gyda'r anrhegion.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth yn dal yn gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo hynny'n briodol.**

Mae gwybodaeth yn rhan allweddol o waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Peth hynod o ddefnyddiol yn aml yw gallu rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, ond er mwyn diogelu preifatrwydd pobl rhaid cymryd gofal mawr wrth wneud hynny. Mae'n bwysig fod y cyhoedd yn hyderus fod unrhyw achos o gyfnewid data personol yn digwydd mewn modd cyfreithlon, diogel ac effeithiol.

Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaeth y Prif Swyddog Tân lofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar ran yr Awdurdod. Mae'r Cytundeb hwn yn gyfres gyffredin o egwyddorion a safonau sy'n cynorthwyo i gyfnewid data personol yn gyfreithlon rhwng sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae llofnodi'r Cytundeb yn dangos ymrwymiad i gymhwyso'r egwyddorion a'r safonau hynny. Mae'r Cytundeb wedi cael ei ddiweddaru i fersiwn 5 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018) er mwyn ystyried adborth gan ddefnyddwyr a newidiadau i'r ddeddfwriaeth; sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu data a Deddf Diogelu Data 2018.

Caiff y Gwasanaeth ei gynrychioli ar Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru gan ei Swyddog Diogelu Data. Y grŵp yma sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n digwydd rhwng sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru.

Un enghraifft o gytundeb rhannu data yw'r un sy'n bodoli rhwng y Gwasanaeth a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Nyth) sy'n cynnig ynysu waliau dwbl ac atigau. Dan y cytundeb hwn, mae Nyth yn rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth ynghylch defnyddwyr sy'n byw â thlodi tanwydd. Mae staff Nyth wedi cael hyfforddiant ar gynnal archwiliadau diogel ac iach mewn eiddo pan maent yn cynnal arolygon ar gyfer y rhan arall o'u busnes.

Er mwyn sicrhau bod y cytundeb rhannu data sy'n bodoli eisoes yn cydymffurfio â Rheoliad GDPR, cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Gwasanaeth (sef rheolydd y data) a Nyth (prosesydd y data) i adolygu'r cytundeb. Roedd y cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod gofynion y Rheoliad GDPR yn cael eu bodloni a bod ffyrdd o symleiddio'r gwasanaeth yn cael eu harchwilio. Tynnodd y broses sylw at y ffaith fod llawer o'r atgyfeiriadau a oedd yn dod i'r Gwasanaeth yn rhai nad oedd yn targedu'r bobl sydd â'r mwyaf o risg o dân yn eu cartrefi. Drwy ddiweddaru'r cytundeb rhannu data, cafwyd llwybr newydd ar gyfer atgyfeirio, er mwyn creu atgyfeiriadau a oedd yn seiliedig ar bresenoldeb dau ffactor cyfrannol. Erbyn hyn, mae'r atgyfeiriadau a ddaw drwy'r cytundeb newydd ar rannu data gyda Nyth yn targedu'r bobl sydd â'r mwyaf o risg o dân yn y cartref.

**Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Yn ystod 2019/20, yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, fe wnaeth y Prif Swyddog Tân lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ffurfiol ar ran yr Awdurdod. Mae'r Cyfamod yn ymrwymo na ddylai aelodau cymuned y lluoedd arfog wynebu unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill wrth ddarparu gwasanaethau, a bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi rhoi fwyaf.

Ymunodd cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Amddiffyn â Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn y Gwasanaeth ar gyfer yr achlysur llofnodi, sef ymrwymiad i gydnabod gwerth staff sy'n gwasanaethu, a hynny fel aelodau cyffredin ac aelodau wrth gefn, cyn-filwyr a theuluoedd milwrol, ynghyd â'u cyfraniad i'r wlad.

## Amcan Gwella a Llesiant B: Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u integreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny yn fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

**Camau:**

1. **darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, tra'n parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn fewnol;**
2. **parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.**

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb ddiwygiedig y cytunwyd arni, sef £35,237,112, sy'n llai na'r asesiad cychwynnol, gan adlewyrchu mesurau a gymerwyd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb er mwyn lleihau'r effaith a fydd yn gysylltiedig â chynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol.**

Mae'r Awdurdod yn parhau â'i ymrwymiad i chwarae ei ran yn adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol i'r dyfodol yn golygu bod angen hyblygrwydd a dyfeisgarwch er mwyn gallu cynnal gwasanaethau.

Fe wnaeth yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2019/20 ganfod £35.4m o ofyniad net ar gyfer y gyllideb, o gymharu â £34.1m yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd o £1.3m yn y gwariant net o'r naill flwyddyn i'r llall. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth yr Awdurdod ddefnyddio £0.65m o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu costau rhedeg, ac nid yw hyn yn gynaliadwy. Felly, fe wnaeth y gwaith cynllunio cychwynnol nodi mai £1.9m fyddai'r cynnydd angenrheidiol yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2019/20.

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynigion y gyllideb ar gyfer 2019/20 ei gynnal yn ystod hydref 2018. O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 61% y byddai £1.9m o gynnydd yng nghyfraniadau'r cynghorau yn well na gostwng gwasanaethau. Dywedodd 24% arall y dylid cynnal y gwasanaethau er y dylai'r Awdurdod geisio gostwng y cynnydd. Cafodd y gyllideb refeniw ddrafft ei datblygu drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfredol, gan gadw mewn cof fod angen gostwng y cynnydd i'r awdurdodau cyfansoddol i lai na £1.9m. Yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw a oedd yn werth £35.2m.

Mae gwaith arwyddocaol wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ganfod ac adolygu'r holl wariant, yn enwedig costau yn gysylltiedig â goramser ac oriau ychwanegol. Mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i adrodd mai £0.01m o danwariant fu yn 2019/20. yn ogystal â chynyddu'r cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwysau hysbys yn y dyfodol.

Mae'r datganiad o gyfrifon blynyddol manwl sydd yn crynhoi perfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ac gael yn y fan yma.

Yn gryno, dyma oedd sefyllfa ariannol yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20:

| | Cyllideb 2019/20 £000 | Alldro 2019/20 £000 | Amrywiant 2019/20 £000 |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 27,060 | 26,507 | -553 |
| Safleoedd | 2,190 | 2,621 | 431 |
| **Amrywiant** Trafnidiaeth | 994 | 1,092 | 98 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,139 | 4,485 | 346 |
| | | | |
| Taliadau Trydydd Parti | 427 | 412 | -15 |
| Incwm | -2,628 | -2,641 | -13 |
| Cyllid Cyfalaf a Chostau Llog | 3,055 | 2,749 | -306 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **35,237** | **35,225** | **-12** |

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: parhau i ganolbwyntio ar leihau cynnydd cyllidebol a chanfod arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth.**

Yn ystod 2019/20, cafodd y strwythur adrodd ariannol ei adolygu i sicrhau bod deiliaid cyllidebau yn atebol am wariant eu hadrannau. Fel rhan o'r broses hon, cafodd ymarferiad cyllidebol yn seiliedig ar sero ei gynnal i ailgysoni'r cyllidebau i'r adrannau, a rhoddwyd fformat adrodd newydd ar waith. Mae hyn wedi sicrhau bod rheolwyr y Gwasanaeth yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa ariannol.

Hefyd, cafodd gwaith ei wneud ei adolygu'r pwysau ar gostau yn y dyfodol, a hynny oherwydd newidiadau deddfwriaethol ac amgylcheddol a newidiadau yn y Gwasanaeth, ynghyd â'r camau a gymerwyd i neilltuo arian i liniaru rhag unrhyw gynnydd arwyddocaol yn y gyllideb yn y dyfodol.

Yn ogystal â sicrhau bod ei gyllideb refeniw yn cael ei reoli'n ofalus, mae'r Awdurdod yn parhau i graffu ar ei raglen gyfalaf er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, ac mae'n parhau i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf i weld a oes goblygiadau negyddol posibl i'r refeniw.

Mae sefyllfa'r Awdurdod yn gadarn yn y tymor canolig, ond bydd angen rhoi sylw gofalus i bwysau'n ymwneud â chostau pensiwn a'r gyflogres, ynghyd â newidiadau a ddisgwylir i'r mecanwaith cyllido a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: parhau'n agored i gyfleoedd i staff amlsgiliau weithio dros ffiniau sefydliadau er mwyn cynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau, yn enwedig rhai a fydd yn gwella canlyniadau iechyd, diogelwch a llesiant fel rhan o ddull 'Diogel ac Iach' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

Mae'r Awdurdod yn parhau i adeiladu ar yr arfer sydd wedi hen sefydlu o weithio gyda phartneriaid i ddarparu amrediad gwell a mwy amrywiol o wasanaethau. Mae'r gallu i feithrin partneriaethau yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu amrediad ehangach o wasanaethau yn y dyfodol, gyda ffocws arbennig ar wella canlyniadau iechyd, diogelwch a llesiant.

**Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol**
Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar ysgolion, ac mae'n darparu prydau iach, bwyd a maeth, addysg, gweithareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf. Cydnabyddir bod rhai teuluoedd yn cael trafferth fforddio bwyd neu gael gafael ar fwyd sy'n darparu deiet iach yn ystod y gwyliau, a gallai rhai plant fod wedi'u hynysu'n gymdeithasol a dioddef prinder ysgogiad deallusol (sydd fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr ysgol) neu weithgareddau cyfoethogi teuluoedd. Gallai hyn gyfrannu at ledaenu'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd cyflogwyr yn mynd i'r ysgolion yn ardal Gogledd Cymru ac yn cynnal gweithgareddau gyda'r plant yn ystod y gwyliau er mwyn iddynt gael gweld y gwasanaethau a ddarperir, a hynny er mwyn cefnogi llesiant emosiynol plant ysgol yn yr ardal leol.

**Beth am Symud Gogledd Cymru**
Mae Beth am Symud yn weithgor cydweithredol o sefydliadau sy'n cydweithio i gefnogi, dylanwadu ac eiriol dros ddatblygu amgylcheddau (naturiol ac adeiledig) sy'n galluogi unigolion a chymunedau i symud mwy ac i fod yn llai eisteddog ymhob agwedd ar eu bywydau bob dydd. Mae'r Awdurdod yn aelod arweiniol o'r gweithgor, ac mae wedi ymrwymo i weithio i wella iechyd a llesiant Gogledd Cymru.

Mae bod yn egnïol yn darparu nifer o ffactorau cadarnhaol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol a llesiant. Mae'r ymgyrch yn cynnig cymorth yn y meysydd canlynol:

- hybu gwaith y gweithgor, a manteision lleihau ymddygiad eisteddog a chynyddu gweithgareddau corfforol
- dathlu arferion da a rhannu'r hyn a ddysgir, ac adnoddau
- gweithio gyda phartneriaid i ddenu cyllid ac i gydweithio ar syniadau newydd
- adolygu a gweithredu camau yn eu sefydliadau eu hunain i gynyddu'r gweithgaredd egnïol ac i leihau ymddygiad eisteddog ymysg y gweithlu
- ymrwymo i wella ansawdd y gwaith, a hynny drwy werthuso ac ymchwilio fel y bo'n briodol.

**Hyrwyddo Wythnos Dementia**
Rhan o waith yr Awdurdod yw gweithio gyda phobl yn y gymuned sydd â dementia. Mae'r Awdurdod yn cael ei gydnabod fel sefydliad sy'n 'Gweithio tuag at fod yn Sefydliad sy'n Ystyriol o Demetia', felly mae ganddo hyrwyddwyr hyfforddedig i annog eraill i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl sy'n byw â dementia yn y gymuned.

Drwy weithio mewn partneriaeth â'r tîm cymorth dementia ar Ynys Môn, mae cleientiaid newydd yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig at archwiliad diogel ac iach. Cyn gynted ag y daw atgyfeiriad i'r tîm cymorth dementia, mae aelod o'r tîm yn cysylltu â gweithiwr cymorth diogelwch yn y cartref i gynllunio ymweliad ar y cyd. Yna, gwneir trefniadau i'r gweithiwr cymorth diogelwch yn y cartref fynd draw gyda gweithiwr cymorth dementia. Mae hyn yn gostwng nifer yr ail-ymweliadau sydd eu

hangen ac yn sicrhau bod yr ymweliad yn cael ei gynnal gyda rhywun sy'n aml yn gyfarwydd gyda, ac yn deall, anghenion cymhleth y cleient. Mae gweithwyr cymorth dementia hefyd yn ymwybodol bellach o'r ymyriadau sydd ar gael. Drwy drefnu ymweliad ar y cyd i unrhyw un sydd ag angen arbenigol, maent yn sicrhau bod modd gofyn ymlaen llaw am gyfarpar arbenigol megis larymau mwg i bobl trwm eu clyw.

Yn ystod wythnos dementia ym mis Mai 2019, manteisiodd aelodau o'r staff, ynghyd ag aelodau eraill o grŵp dementia goleuadau glas Cymru gyfan, ar gyfle i hyrwyddo 'Protocol Herbert' i drigolion ledled Cymru.

Mae 'Protocol Herbert' yn gynllun cenedlaethol a gyflwynwyd gan yr heddlu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i annog gofalwyr a theuluoedd i gasglu gwybodaeth i'w defnyddio os bydd rhywun â dementia yn mynd ar goll. Mae Protocol Herbert wedi cael ei enwi ar ôl George Herbert, sef un o gyn-filwyr y glaniadau yn Normandy a oedd yn byw â dementia. Bu farw George Herbert tra oedd 'ar goll', yn ceisio dod o hyd i'r cartref lle roedd yn byw pan oedd yn blentyn.

Gall gofalwyr, aelodau o'r teulu a chyfeillion lenwi ffurflenni ymlaen llaw, gan gofnodi manylion pwysig am rywun, megis lluniau ffotograff, gwybodaeth feddygol, rhifau ffonau symudol, cyfeiriadau blaenorol, a mannau lle daethpwyd o hyd iddynt o'r blaen. Os bydd rhywun yn mynd ar goll, mater rhwydd fyddai rhoi'r ffurflen i'r heddlu er mwyn lleihau'r amser i gasglu'r wybodaeth hon.

**Amser i Newid Cymru**
Amser i Newid Cymru yw'r ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi diwedd ar y stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Awdurdod wedi arwyddo'r addewid Amser i Newid, i ddangos ei fod yn ymrwymo i newid y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu mewn perthynas ag iechyd meddwl yn y gweithle.

**Mudiad ieuenctid addysgiadol y Cadetiaid Tân**
Nod y Cadetiaid Tân Cenedlaethol yw creu cymunedau cryfach a mwy diogel drwy ddatblygu'r adnabyddiaeth a'r ymwybyddiaeth sydd gan unigolion o'u cymuned ac i gynyddu sgiliau dinasyddiaeth.

Mae'r mudiad ieuenctid addysgiadol hwn yn cael ei redeg gan wasanaethau tân ac achub yn y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC). Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed gael tystysgrifau galwedigaethol yn ogystal â datblygu'n bersonol mewn llawer o ffyrdd. Mae wyth uned y Cadetiaid Tân yn ardal yr Awdurdod, ac maent yn gwneud gwaith yn y gymuned ac yn codi arian at achosion da, yn ogystal ag yn cwrdd yn yr orsaf bob wythnos.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y rhaglenni peilot a gynhelir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.**

**Lansio cynllun peilot hyrwyddwyr gwirfoddol cymunedol**
Yn ystod mis Awst 2019, cafodd cynllun peilot newydd ei lansio yn Sir Ddinbych i helpu i dargedu unigrwydd ac i weithio gydag aelodau bregus o'r gymuned sy'n aml yn gwneud galwadau i'r gwasanaethau brys. Mae unigrwydd yn broblem fawr yng Nghymru oherwydd credir bod tua 17% o'r boblogaeth, sef 440,000 o bobl, yn unig. Mae unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn gallu arwain at nifer o broblemau corfforol a seicolegol, gan gynnwys marw cyn pryd, problemau cysgu, pwysedd gwaed uchel, ansawdd bywyd gwael, mwy o risg o drawiad ar y galon a strôc, iselder a hunanladdiad.

Mae'r cynllun hyrwyddwyr gwirfoddol cymunedol yn rhan o waith ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth brys, ac mae'n golygu bod unigolion o grwpiau gwirfoddol sydd wedi'u sefydlu eisoes yn cynorthwyo pob gwasanaeth brys i gyfathrebu negeseuon a allai fod yn hollbwysig, gan helpu i ddiogelu trigolion Gogledd Cymru. Nod y cynllun yw delio â'r nifer uchel o alwadau brys sydd ddim angen ymateb brys. Drwy weithio gyda phobl sy'n galw'n aml i gynnig sicrwydd ac i sicrhau eu diogelwch drwy gynnal archwiliad diogel ac iach, archwiliad diogelwch y cartref ac asesiad o'r risg y gallai'r person gael codwm gartref, gobeithio y bydd modd gostwng nifer y galwadau sy'n dod i ni.

Mae'r fenter hon wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol gwirioneddol i gymunedau, ac mae'n dystiolaeth hefyd o gryfder y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng y tri gwasanaeth brys yng Ngogledd Cymru.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y camau arfaethedig i'w cymryd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant yn ystod 2020/21, a chytuno ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno, ar sail y costau hysbys.**

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd y Gweithor Cynllunio yn 2019, penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch datblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol o fis Ebrill 2020 ymlaen. Fel rhan o'r trafodaethau, buom yn ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd a'r amodau tywydd gwael, a'r budd o ddatblygu strategaeth amgylcheddol sy'n cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- cynllunio adnoddau ar gyfer delio â gwaith sy'n ymwneud â thywydd eithafol, megis llifogydd eang a mwy o danau glaswelltir;
- addysgu'r cyhoedd, a chydweithio i leihau'r effaith ar gymunedau lleol oherwydd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd;
- monitro a rheoli'r modd y mae'r Gwasanaeth ei hun yn defnyddio ynni a thanwydd ac yn rheoli gwastraff;
- diwygio polisïau caffael a threfniadau cyfrifyddu;
- gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at fioamrywiaeth.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu datganiad polisi ynghylch yr amgylchedd ac ynni ers sawl blwyddyn, ac roedd yn tybio y byddai'n briodol rhoi bywyd newydd yn y gwaith hwn drwy ddatblygu strategaeth amgylcheddol newydd sy'n mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal â'r gwaith a wneir drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal rhwng Medi 2019 ac Ionawr 2020, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgysylltu, sy'n cynnwys y canlynol:

- dogfen wybodaeth esboniadol; a
- holiadur ar-lein, gyda'r dewis i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig os yw'n well gan bobl hynny.

Roedd y dulliau cyfathrebu yn cynnwys y canlynol:

- datganiad i'r wasg, gyda dolen at y ddogfen ymgynghori a gwybodaeth ynglŷn â sut i gymryd rhan;
- llythyrau at randdeiliaid, gyda chopi o'r ddogfen ymgynghori a gwybodaeth ynglŷn â sut i gymryd rhan;
- negeseuon ategol ar y cyfryngau cymdeithasol, i gyfeirio pobl at yr ymgynghoriad, gan gynnal yr ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio fideo byr a thynnu sylw at y dyddiad cau; ac
- erthyglau a nodiadau atgoffa mewn cyhoeddiadau ar gyfer y staff.

Cyfarfu'r swyddogion hefyd â chynrychiolwyr o nifer o gynghorau sir a chyngorau tref a chymuned i esbonio'r ymgynghoriad ac i'w hannog i ymateb er mwyn awgrymu pethau i'w cynnwys mewn strategaeth arfaethedig ar gyfer yr Awdurdod. Roedd yr holiadur ar-lein yn cyflwyno tair agwedd ar y gwaith o ddatblygu strategaeth amgylcheddol:

- cyfrifoldeb corfforaethol, gan gynnwys, er enghraifft, effaith gweithrediadau'r Gwasanaeth ei hun, y modd y mae'n defnyddio tanwydd, gwres a golau, ei bolisïau caffael a'i weithdrefnau rheoli gwastraff;
- gwaith ataliol, a'r heriau sy'n gysylltiedig â chael cydbwysedd rhwng effaith amgylcheddol y milltiroedd sy'n cael eu teithio o gymharu â chyfrifoldebau'r Gwasanaeth i atal tanau; ac
- ymateb brys, a'r heriau sy'n gysylltiedig â delio â'r newid yn yr hinsawdd, sy'n arwain, er enghraifft, at gynnydd yn nifer y llifogydd yn ystod gaeafau gwlypach a thanau yn yr awyr agored mewn hafau sychach a phoethach.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bu'r Awdurod yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chyllideb 2019/20. Fe wnaeth y gwaith o gynllunio'r gyllideb ganfod gofyniad net o £35.2m ar gyfer y gyllideb.

**Cam gweithredu yn ystod y flwyddyn: parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth.**

Mae'r Awdurdod wedi parhau â'i ymrwymiad i gynllunio ar gyfer y dyfodol drwy hybu rhagor o gyfleoedd am brentisiaethau fel diffoddwr tân. Mae prentisiaethau modern yn rhan allweddol o'r strategaeth gyflogaeth genedlaethol, ac mae'n gallu cynnig cymorth a chyfleoedd i bobl ifanc o bob gallu.

Yn dilyn llwyddiant blaenorol gyda'r cynllun prentisiaethau diffoddwyr tân, rhoddwyd dau gyfle arall am brentisiaeth diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn. Yn y bedair awr ar hugain gyntaf, denodd y prentisiaethau fwy na 200 o geisiadau. Yn ogystal â'r cynllun prentisiaethau tair blynedd cyffredinol, roedd rhaglen Arweinwyr y Dyfodol ar gael hefyd. Mae'r prentisiaethau ar gyfer diffoddwyr tân ac arweinwyr y dyfodol yn dilyn y rhaglen hyfforddi 'Sgiliau er Cyfiawnder', sy'n darparu dealltwriaeth a llwybr clir at swydd diffoddwr tân a rheolwr modern.

Mae'r prentisiaid diffoddwyr tân yn cwblhau rhaglen hyfforddi er mwyn bod yn ddiffoddwr tân 'cymwys', ac yr un mor bwysig, maent yn cael cip ar yr amrywiaeth eang o swyddogaethau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth tân ac achub modern. Mae'r fframwaith Prentisiaid Arweinwyr y Dyfodol yn ymgorffori modiwlau hyfforddi prentisiaid diffoddwyr tân ond hefyd yn cynnwys datblygu pellach er mwyn paratoi ar gyfer swydd rheolwr goruchwyliol ac uwch.




Cafodd nifer o raglenni prentisiaeth eraill eu cynnig mewn amrywiaeth o swyddogaethau, er enghraifft, technegwyr cerbydau, diogelwch tân busnesau, diogelwch cymunedol a chysylltiadau cyhoeddus. Cafodd yr Wythnos Brentisiaethau Genedlaethol ei hyrwyddo drwy fideo o un prentis diogelwch busnesau yn dweud sut mae'r brentisiaeth wedi trawsnewid ei hunan-hyder, gweler yma.

Cynhaliwyd digwyddiad i hyrwyddo prentisiaethau yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy hefyd, ac yn cymryd rhan roedd prentisiaid o sefydliad sy'n bartner inni, sef Cartrefi Conwy, fel y gallai pawb a oedd yno ddysgu mwy am waith yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd.

**Platfform gyrfaoedd cenedlaethol - BBC Bitesize**
Ymddangosodd dau aelod o’r staff ar wefan 'BBC Bitesize', sef platfform gyrfaoedd cenedlaethol sy’n cael ei ddefnyddio gan ysgolion ledled y DU i roi ysbrydoliaeth i bobl ifanc wrth iddynt ymchwilio i yrfaoedd. Mae’r erthyglau ar gael yma ac yma.

**Digwyddiad gyrfaoedd i ddenu merched ifanc i’r gwasanaethau brys**
Fel rhan o ddathliadau’r Diwrnod Rhyngwladol i Fenywod, cynhaliwyd digwyddiad arbennig yng Nghanolfan Adnoddau’r Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans yn Wrecsam i helpu i annog merched ifanc i ystyried gyrfa yn y gwasanaethau brys.
Daeth disgyblion o flynyddoedd 8 a 9 o ysgolion ledled Wrecsam a Sir y Fflint i’r digwyddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd gan y staff i roi blas iddynt o weithio yn y gwasanaethau goleuadau glas. Rhannwyd y disgyblion yn grwpiau a chawsant gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd, profi cyfarpar a dysgu mwy am yrfa yn y gwasanaethau brys. Mae fideo o’r digwyddiad ar gael yma.

## MONITRO CYDYMFFURFIAETH GYDA SAFONAU'R GYMRAEG

**Beth mae'r Mesur yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Nid oes yn rhaid i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg mwyach, yn hytrach mae'n rhaid iddo gydymffurfio gyda chyfres o Safonau Iaith Gymraeg.

Fe gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae hwn yn rhestru'r Safonau (fel yn y rhestr lawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu.

Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg am 2019/20 erbyn 30 Medi 2020 a rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth cyfoethog cymunedau gyda threftadaeth naturiol a diwylliannol o bwys.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod dyletswydd arno tuag at ei staff hefyd, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau. Drwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac ateb disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld gan ddefnyddio'r ddolen isod:**
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337605/welsh-language-standardsimplementation-plan-GTAGC.pdf

Yn ystod 2019/20, fe wnaeth yr Awdurdod barhau i gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Mae hefyd wedi parhau i weithio gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Iaith.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru ac mae'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd o'i Fforwm Iaith Gymraeg i rannu gwybodaeth ar arferion da.

**Safon 147 - Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg**

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 717 o weithwyr (allan o 866) yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (lefel 1 ac uwch), ac roedd 340 ohonynt yn siaradwyr rhugl (Lefel 4 a 5).

**Standard 148 Nifer yr aelodau o'r staff sydd wedi mynychu hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion, cynefino, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch)**

Nid oes dim un o'r hyfforddiant yn y rhestr yn y Safonau Gweithredol Rhif 125 yn cael ei ddarparu eleni. Pe byddai'r hyfforddiant a restrir yn y Safon wedi cael ei ddarparu, byddai wedi cael ei hwyluso yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cynhaliwyd cwrs Cymell a Mentora yn ystod y flwyddyn a dewisodd 14 o'r mynychwyr i gwblhau'r cwrs yn Gymraeg.

**Standard 151 Nifer y swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, heb fod yn angenrheidiol neu bod angen ei dysgu**
Mae pob swydd yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg, a'r lefel isaf yw Lefel 2 mewn siarad a gwrando. Yn ystod y cyfnod hwn, 24 o swyddi newydd a gwag eu hysbysebu, roedd 5 ohonynt yn rhai Cymraeg hanfodol (Lefel 4) a 14 ohonynt yn rhai Cymraeg dymunol (Lefel 2).

Yn ystod y cyfnod hwn cafodd 47 o ddiffoddwyr tân RDS (ar alw) eu recriwtio - rhaid i bob diffoddwr tân sy'n cael ei benodi gyrraedd Lefel 2 fel lefel ofynnol naill ai pan maent yn dechrau neu o fewn eu cyfnod prawf. Hysbysebwyd dau Gynllun Diffoddwyr Tân Prentis yn ogystal, lle cafodd yr isafswm sgiliau ei godi o Lefel 2 i Lefel 3 i'w gyflawni erbyn diwedd y cyfnod hyfforddi.

**Standard 143 Nifer y cwynion a ddaeth i'r sefydliad am bob dosbarth o safonau**
Mae'r cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth. Mae cwynion a llythyron o werthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y Gymraeg yn ystod 2019/20. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi trefn gwyno ar ei wefan, ac mae ganddo bolisi mewnol i'r staff ynglŷn â sut i fynegi pryder neu gŵyn.

**Hyrwyddo'r Gymraeg**
Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fewnol mewn gwahanol ffyrdd, sef drwy Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, y Golofn Gymraeg yn y cylchgrawn mewnol 'Y Fflam', yn ystod bwletinau wythnosol i'r staff, yr ymgyrch Mercher 'Marfer, a thrwy Facebook y Gweithle sydd gan is-grwpiau i Ddysgwyr a Hyrwyddwyr y Gymraeg. Cyflwynir gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn'/ 'Ymrwymiad i'r Gymraeg' yn ogystal.

Mae GTGAC yn cynnal cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, sef gweithwyr Cymraeg yn cefnogi aelodau o staff ar draws y Gwasanaeth i wella eu sgiliau iaith. Yn ystod 2018/19 crëwyd pecyn adnoddau newydd ar gyfer yr Hyrwyddwyr i'w defnyddio gyda dysgwyr yn y gweithle. Yn ystod 2019/20 crëwyd 50 pecyn arall i gwrdd â'r galw cynyddol am yr adnoddau hyn. Mae'r pecynnau yn cynnwys matiau A3, cardiau fflach, gemau a thaflenni gwaith sydd wedi eu dylunio i gynorthwyo pobl sydd yn dysgu'r iaith. Cafodd yr adnoddau eu dosbarthu i bob gorsaf dân a swyddfa ardal. Cynhyrchwyd calendr desg eto eleni sydd yn cynnig cyngor ar ramadeg a geirfa. Cynhelir cwis blynyddol ar Ddydd Gŵyl Dewi i godi ymwybyddiaeth o'r ymrwymiad i'r iaith - cafodd y cwis dderbyniad da gyda'r enillydd yn derbyn taleb Amazon gerth £30.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn canfod beth yw dewis iaith darpar weithwyr yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, ac mae'n cofnodi'r wybodaeth at y dyfodol. Mae'n cadw cofnod o bob aelod o'r staff sydd wedi dweud eu bod yn dymuno cael gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a gellir adolygu'r dewis hwn unrhyw bryd. Cyfieithwyd pob polisi a ffurflen Adnoddau Dynol sy'n ymwneud â chyflogaeth yr unigolyn, ac maent yn cael eu cyhoeddi'n fewnol. Hefyd, mae cwynion a materion disgyblu yn cael eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg os gwneir cais am hynny, a dangosir parch bob amser at ddewis iaith yr unigolyn.

Rhoddir canllawiau i'r staff am bwysigrwydd cynnig dewis iaith i bawb, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ni waeth beth yw'r lleoliad, yr acen, yr ethnigrwydd ac ati. Mae'r neges hon yn cael ei hailadrodd yn y modiwl gorfodol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd wedi cael ei greu ar gyfer y staff, yn ystod y sesiynau wyneb yn wyneb i staff newydd ac yn ystod y cwrs

hyfforddi cychwynnol i'r diffoddwyr tân. Mae canllawiau hefyd ar gael ar ryddhau gohebiaeth i'r cyhoedd, ac mae pob llofnod e-bost a phapur pennawd yn cynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae logos Siarad Cymraeg a Dysgu Cymraeg wedi cael eu cynnwys yn y llofnod e-bost safonol.

Mae'r adran Hyfforddi yn cadw cofnod o'r holl gyrsiau Cymraeg y mae gweithwyr yn eu mynychu a'r asesiadau sy'n cael eu gwneud, ac mae'n cofnodi'r canlyniadau yn ei system gofnodi mewnol. Yr Adran Hyfforddi sydd hefyd yn hwyluso'r cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu darparu gan Goleg Cambria ac anogir aelodau staff i wneud cais am gwrs yn ystod eu gwerthusiad blynyddol. Eleni mae staff wedi cael eu hannog i fynychu cyrsiau canolradd, uwch a hyfedredd yn Nant Gwrtheyrn fel rhan o'r Cynllun Cymraeg Gwaith sy'n cael eu darparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.


Mae pob polisi newydd a diwygiedig yn cael ei gyhoeddi'n fewnol yn Gymraeg a Saesneg, a rhaid i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg ac i ganfod a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi unrhyw effaith negyddol.

Fel gyda'r Polisi blaenorol ar y Gymraeg, mae'r gwaith yn parhau i gynnig dewis iaith i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau, a bu hyn yn fuddiol ac yn ffordd o ymgysylltu'n well â phob aelod o'r gymuned. Eleni rydym wedi hyrwyddo'r Gwasanaeth fel sefydliad dwyieithog ar Twitter trwy ddefnyddio'r hashnod #yagym fel rhan o'r fenter 'Yr Awr Gymraeg'. Mae'r negeseuon hyn wedi bod yn gysylltiedig â'r Safonau, ac maent wedi amlygu hawliau siaradwyr Cymraeg i gysylltu gyda ni yn Gymraeg. Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, posteri a thaflenni yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob tro.

Mae gwefan GTAGC yn gwbl ddwyieithog, ac mae hyn yn cynnwys cyfleusterau ReadSpeaker drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymholiadau drwy'r wefan yn cael eu hateb yn newid iaith y sawl sy'n eu derbyn.

Gan fod yr Awdurdod yn cydnabod gwerth a mantais cynnig dewis iaith, mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli gwbl ddwyieithog er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod dyletswydd foesol ac egwyddorol arno i ddelio'n effeithiol â phobl mewn argyfyngau felly mae'n mynd y tu hwnt i'r Safonau i ddelio â digwyddiadau'n effeithiol yn newis iaith y sawl sy'n galw.

Yn ystod 2019/20 cymrodd yr Awdurdod ran mewn menter gan Gomisiynydd y Gymraeg, 'Mae gen i hawl' , drwy gynhyrchu clipiau byr i'w defnyddio ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo hawliau defnyddwyr i gysylltu gyda'r Gwasanaeth yn Gymraeg. Fe wnaeth hefyd gymryd rhan yn y fenter 'Diwrnod Su'mae Shwmae' trwy newid ei broffil Facebook a Twitter am y diwrnod a phostio fideos a oedd yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a rhannu adnoddau yn fewnol.




Eleni roedd yr Awdurdod yn awyddus i ddenu siaradwyr Cymraeg yn ystod ei ymgyrchoedd recriwtio i wneud yn siŵr bod ganddo nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg i allu gweithredu'n ddwyieithog, nawr ac yn y dyfodol, ac felly rhoddwyd ymgyrch gweithredu positif ar waith i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi. Yn ystod ymgyrch i recriwtio Diffoddwyr Tân Prentis, cafodd siaradwr Cymraeg eu targedu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r papurau bro lleol, i amlygu'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr a hanfodol.

Am y tro cyntaf erioed yn ystod ymgyrch i recriwtio staff gweithredol rhoddwyd yr un pwys ar gymhwyster TGAU Saesneg a Chymraeg er mwyn sicrhau cydraddoldeb, ac felly roedd y gofynion hanfodol i ymgeiswyr cyn gallu cofrestru yn cynnwys TGAU gradd C neu uwch mewn naill ai Cymraeg neu Saesneg.

Roedd y canlyniadau o'r sifft gyntaf yn galonogol iawn. Allan o'r 492 o bobl a wnaeth gofrestru, datgelodd 138 eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda 74 yn datgelu eu bod yn siaradwyr Cymraeg canolradd a 154 yn datgelu eu bod yn ddysgwyr o'i gymharu â dim ond 122 a ddywedodd eu bod yn ddi-gymraeg a 3 a ddewisodd beidio â datgelu'r wybodaeth yma. Dewisodd 15 o bobl i gwblhau'r ffurflen gais yn Gymraeg a gofynnodd 49 o bobl am gyfweliad Cymraeg. Yn anffodus oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r pandemig COVID-19 mae'r broses wedi ei gohirio ac felly nid yw wedi bod yn bosibl ymchwilio ymhellach i allu ieithyddol yr ymgeiswyr.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar annog rhagor o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag annog pobl i fod yn hyderus wrth nodi eu sgiliau ieithyddol.

Cafodd yr Awdurdod hefyd gyfle cyffrous i weithio ochr yn ochr â Choleg Cambria ar gyfres o fideos o'r enw 'Ar Frys' a oedd wedi eu hanelu at annog pobl ifanc i ddilyn gyrfa yn y gwasanaethau brys. Roedd y fideos yn amlygu pwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg mewn argyfwng.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o gysylltu gyda chymunedau i amlygu'r gwasanaethau Cymraeg y mae'n eu cynnig a phwysleisio bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle.

## CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

**Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**
Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod yr Awdurdod yn ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob 4 blynedd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016/20 yn nodi chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod yn eu hybu i sicrhau bod Cymru'n wlad fwy teg i fyw ynddi. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb hawl i'r canlynol:

- cael eu trin yn deg
- cael yr un siawns â phobl eraill
- bod yn rhydd o gamwahaniaethu.

Mae penawdau'r amcanion hyn yn seiliedig ar y penawdau meysydd yn nogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor Deg yw Cymru". Mae'r penawdau'n gyson hefyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn golygu bod modd cynnwys cyd-amcanion yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol sefydliadau unigol y sector cyhoeddus.

Ar ôl nodi'r amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w hybu ac i adrodd yn gyhoeddus, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, am y cynnydd a wnaeth. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer y nodweddion na chaniateir eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu Rhywedd;
- Priodas a Phartneriaeth Sifil;
- Beichiogrwydd a Mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu Gred/Dim Cred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb strategol:

- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb
- Amcanion y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella
- Cynlluniau busnes gan benaethiaid adrannau
- Strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Canlyniad gweithgareddau ymgysylltu

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu newid yr amcanion unrhyw bryd, felly ymgysylltir drwy'r amser i sicrhau bod yr amcanion yn parhau'n gyfoes. Mae'r Awdurdod yn mynd ati drwy'r amser i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy gysylltiadau cyfredol â grwpiau a mudiadau cymunedol, a thrwy ymdrechu i sefydlu perthynas â grwpiau a chymunedau newydd, anghenion a disgwyliadau pawb dan sylw. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad yn 2019/20 erbyn 31ain Mawrth 2021.

**Amcan Cydraddoldeb 1 – Bywyd ac Iechyd**
Gostwng nifer y tanau mewn cartrefi a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheiny, a hynny drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n benodol at bobl y gellir dangos eu bod â mwy o risg oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- diweddau ei gyfarwyddyd a'i brosesau ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb i gynnwys dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ynglŷn â phenderfyniadau strategol;
- parhau i ddatblygu'r perthnasoedd gwaith cadarn sy'n bodoli gydag asiantaethau partner i gyfeirio unigolion a theuluoedd risg uchel, gydag ansawdd cyfeiriadau yn parhau i fod yn uchel. Yn 2019/2020, roedd 30% o'r archwiliadau diogel ac iach a gwblhawyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn deillio o gyfeiriadau gan asiantaethau partner. Daeth 52.6% o'r holl gyfeiriadau blaenoriaeth uchel gan asiantaeth. Mae asiantaethau nid yn unig yn bwysig o ran cyfeirio ond maent hefyd yn hanfodol bwysig wrth drosglwyddo negeseuon allweddol y Gwasanaeth wrth ryngweithio gyda'u cleientiaid;
- trwy Grŵp Llywio Ymgyrchoedd y Gwasanaeth caiff ymgyrchoedd a digwyddiadau targedig eu trefnu drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn dod â'r Gwasanaeth i gysylltiad uniongyrchol â'r grwpiau targed trwy lu o weithgareddau cynlluniedig sydd yn amrywio o weithgareddau wyneb yn wyneb i gyfryngau printiedig ac electronig. Nod yr ymgyrchoedd ydi ceisio cynnwys y bobl hynny sydd mewn mwy o risg o ddioddef tân yn y cartref, yn ogystal â'r bobl sydd gan gyswllt uniongyrchol gyda'r unigolion hyn neu gyfrifoldebau gofalu drostynt.

**Amcan Cydraddoldeb 2 – Cyflogaeth**
Drwy ein harferion cyflogaeth, mae rhaglenni a chynlluniau yn cynyddu gobeithion cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at fyd gwaith.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- mynd i ddigwyddiad Skills Cymru a nifer o ffeiriau gyrfaoedd mewn ysgolion a digwyddiadau 'Help i Weithio' Cymunedau'n Gyntaf yng Ngogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r gyrfaoedd diffoddwyr tân a STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) sydd ar gael yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- mynd i lu o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r digwyddiadau gweithredu positif Ffitrwydd Tân arfaethedig. Mae hyn wedi cynnwys mynd i ddigwyddiadau *park run*, rasys hanner marathon a rasys triathlon ledled Gogledd Cymru yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyda grwpiau gwledig, megis clybiau ffermwyr ifanc, clybiau ieuenctid a chlybiau rygbi. Cynhaliwyd tri diwrnod gweithredu positif yn 2019 i hyrwyddo cynhwysiant ac fe'i mynychwyd gan 28 o ferched a oedd â diddordeb mewn deall beth mae'n ei olygu i fod yn ddiffoddwr tân gweithredol. Cynhaliwyd tair rhaglen Ffitrwydd Tân 8 wythnos o hyd mewn tri lleoliad ( Y Rhyl, Wrecsam a Chaernarfon) ar gyfer grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli i helpu pobl i ddeall a pharatoi ar gyfer y gofynion ffitrwydd ar gyfer rôl diffodd tân.
- Lansio ymgyrch recriwtio system ddyletswydd amser cyflawn ym Mawrth 2019. Daeth 1,100 o geisiadau i law. O'r cychwyn rhoddwyd pwyslais ar sicrhau gweithlu a fyddai'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol. O ganlyniad i lwyddiant ein gwaith gweithredu positif, derbyniwyd 166 (15%) o geisiadau gan ferched. Y cyfartaledd cenedlaethol ydi ar

gyfer ymgeiswyr benywaidd ydi 5%. Ar ôl cyfweld 256 o bobl fe wnaeth y Gwasanaeth recriwtio 20 diffoddwr tân llawn amser a oedd yn cynnwys 11 o ddynion, naw o ferched, tri BAME, pump LGBTQ a dau gydag anabledd, ac yr oedd pob un wedi cyrraedd y safonau gofynnol.

- penodi deg prentis o'r ail garfan o ddiffoddwyr tân prentis a ymunodd â'r Gwasanaeth yn Ebrill 2017 ac a gwblhaodd eu prentisiaeth yn Ebrill 2020. Roedd tair merch o blith y garfan a gafodd swydd barhaol.
- Lansio Prentisiaethau Diffoddwyr Tân ac Arweinwyr y Dyfodol yn Ionawr 2020, roedd y broses gyfweld i fod i gael ei chwblhau erbyn diwedd Mawrth 2020 gyda'r bwriad o ddechrau ym mis Gorffennaf, fodd bynnag mae'r broses wedi ei gohirio am y tro oherwydd COVID-19.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i nifer o fentrau i gefnogi staff:

- Cwblhaodd staff o'r adran Adnoddau Dynol hyfforddiant ar y Siarter Marw i Weithio i ddelio gyda gweithwyr sydd yn derfynol wael neu i gefnogi gweithwyr gydag aelod o'r teulu sydd yn derfynol wael.
- Cyflwynwyd rhaglen lles ariannol gan y Gwasanaeth. Mae'r rhaglen yn addysgu am reoli arian personol yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl a delio gyda materion ariannol, sydd yn un o saith golau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Gweinidog Cenedlaethau'r Dyfodol wedi amlygu cyngor ar ddyledion a mynediad at undebau credyd a mentrau datblygu cymunedol eraill fel un o'r '80 newid syml' y gall cyrff cyhoeddus eu cyflwyno i gwrdd â golau'r Ddeddf. '
- Mae aelodau Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol wedi addo i fod yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth y Gwasanaeth. Anogir pob aelod i hyrwyddo a hybu'r nodweddion gwarchodedig unigol.
- Yn ystod 2019 fee wnaeth y Grŵp adnewyddu Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth mewn ymgynghoriad â staff ledled y Gwasanaeth. Cafodd y gwerthoedd craidd newydd dderbyniad da gan y staff yn unfrydol. Cymeradwywyd y fersiwn terfynol gan y Grŵp Gweithredol a chafodd y gwerthoedd craidd diwygiedig eu gweithredu yn Rhagfyr 2019 gyda chefnogaeth cynllun cyfathrebu mewnol, i gefnogi ymgorfforiad y gwerthoedd craidd newydd.

**Amcan Cydraddoldeb 3 – Addysg**

Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'i deilwra, a honno'n cael ei darparu'n unigol neu ar y cyd, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i ostwng eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill yn ystod gwahanol gamau o'u bywydau.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- cyflwyno proses werthuso newydd a'i halinio gyda Fframwaith Arweinyddiaeth newydd y Gwasanaeth Tân ac Achub
- sefydlu cyrsiau hyfforddi cychwynnol a gloywi sydd yn cael eu cynnal gan secondai o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- creu cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân system ddyletswydd amser cyflawn, ac ar gyfer amrywiaeth o wahanol fintai
- darparu'r pecyn e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ar hyn o bryd mae 93% o bersonél y Gwasanaeth wedi cwblhau'r hyfforddiant. Rydym yn dal i fynychu cyfarfodydd grwpiau hyfforddi Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais

Rhywiol,. Mae cam nesaf yr hyfforddiant, Gofyn a Gweithredu, ar y gweill.

- Creu ac addasu senarios y Ganolfan Asesu Datblygu addas i amgylcheddau gweithredol y gwasanaeth tân ac achub
- Darparu asesiad meistroli a rheoli ar-lein a datblygu sesiynau ymgyfarwyddo, fel rhan o'r Strategaeth Meistroli Digwyddiadau Cymru gyfan.

**Amcan Cydraddoldeb 4 – Diogelwch Personol**
Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau tân ac achub.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- parhau i gynnal archwiliadau gweithle llawn wyneb yn wyneb tan ddiwedd 2019. Os canfu bylchau, cynigir cefnogaeth a chyfarwyddyd; Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 rydym wedi datblygu system newydd i gynnal archwiliad dros y ffôn ac mae hyn yn cynnwys adran ar ddiogelu gan sicrhau ein bod ni'n cynnal ymwybyddiaeth a gwybodaeth ledled y Gwasanaeth.
- cyflwyno gwybodaeth risg o'r System Rheoli Cofnodion Tân i'r system Meistroli a Rheoli. Wrth drin galwadau 999 caiff cyfeiriadau eu paru, a bydd yr wybodaeth risg o'r System Rheoli Cofnodion yn cael ei gyfeirio at y criwiau gweithredol fel y gallant gael gafael ar yr un wybodaeth risg uchel oddi ar derfynellau data symudol y peiriant tân.

**Amcan Cydraddoldeb 5 – Cynrychiolaeth a Llais**
Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu sut bydd gwasanaethau tân ac achub yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- fel aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru fe gynhaliom ymgynghoriad ym Mai 2018, a gwahoddwyd aelodau o grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig o bob cwr o Ogledd Cymru i gymryd rhan, a chafodd sylwadau'r cyfranogwyr eu casglu yn ystod y digwyddiadau hyn, a'u bwydo yn ôl i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf.
- cydweithio gyda phartneriaid lleol trwy ofyn iddynt rannu ac ail drydar ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull cyswllt: teilwra negeseuon Facebook a Twitter ac anfon negeseuon atgoffa, roedd y rhain yn gysylltiedig â'r ddogfen ymgynghorol ar y wefan, a chynhyrchu fideo pwrpasol.

**Amcan Cydraddoldeb 6 – Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau**
Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau yn GTAGC, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.

**Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:**

- ymgynghori ar amcanion strategol y Gwasanaeth ar gyfer 2020/2021 rhwng Medi a Rhagfyr 2019.

- datblygu tudalen lanio bwrpasol i roi holl fanylion yr ymgynghoriad mewn un lle ar ein gwefan - yn cynnwys y ddogfen ymgynghori, fideo a manylion sut i gymryd rhan yn ein holiadur ar yr Hwb ymgynghori.
- cyhoeddi datganiad i'r wasg a oedd yn cynnwys dolen i'r dudalen ymgynghori ar ein gwefan
- anfon llythyr gan Gadeirydd yr Awdurdod at gyfranogion sydd wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth i'w diweddaru am ein hymgynghoriadau drwy'r wefan i'w gwahodd i gymryd rhan, gan gynnwys dolenni i'r ddogfen eglurhaol a'r fideo - anfonwyd yr wybodaeth at awdurdodau lleol a chynghorau tref yn yr un modd.

- Yn dilyn archwiliad o hygyrchedd y wefan darparwyd hyfforddiant i staff allweddol. Rydym yn gweithio i gyflwyno'r cyfleuster ReciteMe sydd yn rhoi mynediad at wybodaeth mewn sawl iaith
- Rydym yn sicrhau bod dulliau a chyfryngau cyfathrebu addas yn cael eu mabwysiadu i hyrwyddo negeseuon diogelwch blaenoriaeth a nodir gan yr adran Diogelwch Tân gan ystyried aml-ieithoedd, hygyrchedd a chydlynu gyda fforymau a grwpiau cynrychiadol cydnabyddedig i helpu i sicrhau bod ATAGC yn hygyrch i bawb.

- Dadansoddi'r ffactorau risg a oedd yn bresennol yn ystod y tanau mewn anheddau y cawn ein galw atynt, mae hyn yn cadarnhau'n dull i dargedu'r grŵp risg cywir a'n bod yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i flaenoriaethu ein darpariaeth.
- Canolbwyntio ar ymgyrchoedd penodol eleni, cadw'r iaith yn syml a chefnogi negeseuon allweddol gyda delweddau
- Cynyddu defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, gydag ymgyrchoedd deniadol gyda lluniau a fideos o danau gwirioneddol sydd wedi arwain at 'hoffi' a rhannu ein negeseuon mewn modd cadarnhaol.
- Hyfforddi aelod o'r Tîm Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth ar sut i Drin Cwynion Sector Cyhoeddus. Bydd hyn yn cynorthwyo'r awdurdod i sicrhau ein bod ni'n delio gyda chwynion trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a gwella profiad y defnyddiwr.

Yn ystod 2019 a 2020 derbyniodd y Gwasanaeth:

- 25 cwyn - wedi eu derbyn a'u datrys.
- 6 cwyn- wedi eu cadarnhau.
- 3 yn ymwneud â - ymddygiad
- 2 yn ymwneud â - safonau gyrru
- 1 yn gysylltiedig â diogelwch tân i fusnesau

Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, caiff yr wybodaeth cyflogaeth benodedig mewn perthynas â gweithwyr ac ymgeiswyr fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2020 ei gyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y bydd ar gael (dim hwyrach na 31ain Mawrth 2021).

## SUT MAE AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN CYMHARU?

Drwy gymharu gweithgarwch gydag eraill, gellir cael gwybodaeth fuddiol am berfformiad a gweithgarwch. Mae'n helpu i fonitro effeithiolrwydd y polisi cyfredol, a datblygiadau polisi yn y dyfodol; helpu i asesu effeithiolrwydd mentrau ac ymgyrchoedd diogelwch tân, yn ogystal â chynorthwyo wrth leoli adnoddau a darparu prosiectau diogelwch cymunedol.

Mae'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol amrywiol gydag amrywiaeth o beryglon yn cynnwys: tanau yn y cartref; tanau yn yr awyr agored; tanau mewn safleoedd busnes; gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd; damweiniau rheilffordd neu awyr; adeiladau wedi dymchwel; a rhyddhau pobl neu anifeiliaid.

***Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru*** yn gwasanaethu poblogaeth o bron i 700,000 o bobl mewn ardal ddaearyddol sy'n 2,400 milltir sgwâr. Mae'n cyflogi bron i 900 o staff gweithredol a staff cynnal anweithredol o'i bencadlys ac o'i 44 gorsaf dân.

***Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru*** yn gwasanaethu ardal sydd dros hanner maint Cymru a phoblogaeth o dros 900,000 o bobl. Mae ganddo 58 gorsaf dân ac mae'n cyflogi 1,400 o weithwyr.

***Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru*** yn gwasanaethu poblogaeth o dros 1.5 miliwn mewn ardal sy'n 1,085 milltir sgwâr. Mae'n cyflogi dros 1,700 o staff, yn cynnwys dros 1,400 o ddiffoddwyr tân, o 47 gorsaf dân weithredol ledled De Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar weithgarwch yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. I gyfrannu at yr argyfwng yn y DU ac i gynorthwyo Prif Weinidog Cymru, bu'n rhaid i ystadegwyr Llywodraeth Cymru newid eu harferion casglu a rhyddhau data, gan ganolbwyntio ymdrechion ar ddadansoddiadau ac ystadegau blaenoriaeth.

Oherwydd bod nifer o'r ystadegau sydd yn cael eu rhyddhau'n rheolaidd wedi cael eu gohirio (neu ganslo) o ganlyniad i effaith Covid-19, mae'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wedi cydweithio i rannu data dros dro i helpu wrth asesu perfformiad cymharol, darparu gwybodaeth gyd-destunol ar weithgarwch digwyddiadau ac, wrth lywio penderfyniadau polisi. *Weithiau ceir amrywiaethau bach rhwng y ffigurau dros dro a'r ffigurau a gyhoeddir gan ATAau unigol, yn bennaf o ganlyniad i sicrwydd pellach ar ansawdd.*

Yn ystod y pandemig mae'r gofyniad ar bobl i newid eu symudiadau, aros yn y cartref cymaint â phosibl a chyfyngu siwrneiau, gyda dim ond safleoedd annomestig gwasanaethau hanfodol yn cael aros ar agor, wedi bod yn ddigynsail yn ein cyfnod diweddar ni. Dengys yr arwyddion cynnar bod y nifer a'r math o ddigwyddiadau y cafodd y Gwasanaeth ei alw atynt wedi newid, er enghraifft llai o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Byddwn yn dal i fonitro gwybodaeth am weithgarwch yn ofalus, ac mae'n debyg y bydd yr effaith hwn yn fwy amlwg yn y ffigurau a'r asesiad blynyddol ar gyfer 2020/21.

Y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd ydi'r rheiny a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Darperir dolenni i ffynonellau allanol yn yr adran 'Beth Mae Pobl Eraill Wedi'i Ddweud Amdanom ni/Gwybodaeth Arall' ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Digwyddiadau yr aethpwyd atynt

**Yn ystod 2019/20**



aethpwyd at **4,872** o ddigwyddiadau brys yng Ngogledd

Fe aeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru at gyfanswm o 4,872 o ddigwyddiadau brys yn 2019/20, sef 13.9% o gyfanswm yr holl ddigwyddiadau bryd yr aethpwyd atynt yng Nghymru.

## Yr Holl Danau

Yn ystod 2019/20 fe aeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru at gyfanswm o 1,950 o danau, 333 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd gostyngiad o 18% yn nifer y tanau yr aeth yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru atynt o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond yng Ngogledd Cymru roedd y gostyngiad hwn fymryn yn llai, sef 14.5%.

**Yr Holl Danau, Cymru**

*Newid blynyddol 2019/20*

| Gogledd | Canolbarth a Gorllewin | De | Cymru |
|---|---|---|---|
| -14.5% | -15.5% | -21% | -18% |




***Tueddiad tymor hir***: Ers 2001/02 cafwyd tueddiad am i lawr yn nifer y tanau yng Nghymru yn gyffredinol; yn 2019/20 mae'r ffigwr 70% yn is nag yn 2001/02, gyda nifer y tanau wedi gostwng o 35,203 i 10,571.

## Mathau o danau

Mae ***prif danau*** yn cynnwys pob tân mewn adeiladau a cherbydau sydd ddim yn adfail neu mewn adeileddau awyr agored, neu unrhyw dân lle mae pobl wedi'u hanafu neu lle mae angen achub pobl, neu danau lle mae pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb.

Mae ***tanau eilradd*** yn gyffredinol yn golygu tanau awyr agored gan gynnwys tanau ar laswelltir neu mewn sbwriel oni bai bod pobl wedi'u hanafu neu fod angen achub pobl, neu fod pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb.

**Yr holl danau: math a chymhelliant (Gogledd Cymru)**



Cynyddodd nifer y prif danau yng Ngogledd Cymru 1% yn ystod y flwyddyn o 960 yn 2018/19 i 967 yn 2019/20. Ledled Cymru fodd bynnag mae nifer y prif danau wedi gostwng 2.9%; 4,276 o danau o'i gymharu â 4,398 y flwyddyn flaenorol. Ers 2001/02 mae nifer y prif danau yng Ngogledd Cymru wedi gostwng 60.6% tra bo Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru wedi gweld cynnydd o ychydig dros ddau draean.

Yng Ngogledd Cymru, cafwyd gostyngiad o 29% mewn tanau eilaidd o 1,175 yn 2018/19 i 838 yn 2019/20 a chafwyd gostyngiad o 37.5% yn nifer y tanau hyn ledled Cymru yn ogystal o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; yn 2018/19 cafwyd cyfnodau maith o dywydd sych dros fisoedd yr haf, a gyfrannodd at y nifer uchaf o danau eilaidd yng Ngogledd Cymru ers 2011/12 a'r cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall ers 2013/14.


Yn aml iawn, mae'r tywydd ac amodau amgylcheddol o ganlyniad yn rhannol gyfrifol am yr amrywiadau yn nifer y tanau eilaidd. Mae'r tri ATA yng Nghymru yn cynnal ymgyrchoedd diogelwch tân targedig a gwaith diogelwch cymunedol megis ymweliadau ag ysgolion ac ymweliadau cymunedol ac maent yn cydweithio gyda'r heddlu yn lleol lle bo angen i helpu i leihau achosion o danau eilaidd. Yng Ngogledd Cymru mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu ei allu i ymateb, trwy weithio i gynyddu nifer ei gerbydau tanau awyr agored arbenigol i'w defnyddio ledled ardal y Gwasanaeth.

Roedd tanau simnai damweiniol yn gyfrifol am 75% o'r holl brif danau yng Ngogledd Cymru yn ystod 2019/20 a 52% o danau eilaidd. Roedd yr holl danau simnai yn damweiniol.

## Prif danau yn ôl math o eiddo

Yn 2019/20 gostyngodd tanau cerbyd 18% yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn nifer y tanau anheddau a thanau mewn adeiladau dibreswyl. Mae effaith gynyddol ymgyrchoedd diogelwch tân wedi'u targedu, megis Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u teilwra a Dydd Mawrth Profi, wedi cyfrannu at ostyngiad tymor hir mewn tanau damweiniol mewn anheddau, gan ostwng 42% yng Ngogledd Cymru ers 2001/02 a 40% ledled Cymru gyfan. The number of fires in non-residential buildings increased to 230 during 2019-20 from 185 the previous year. Typically the majority of fires in this category start by accident, however 2019/20 saw an increase in the number of fires started deliberately, partly as a consequence of an increase in incidents within public administration, security and safety premises.

**Prif danau: math o eiddo a chymhelliant (Gogledd Cymru)**




## Anafusion Tân

Cafwyd 17 o farwolaethau yng Nghymru yn 2019/20. Mae hyn 3 yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol, er yn nifer tebyg i'r hyn a welwyd cyn hynny. Mae'r tueddiad cyffredinol ers 2001/02 wedi bod yn mynd am i lawr, pan roedd y gyfran o farwolaethau fesul miliwn o'r boblogaeth (pmp) yn 13.1pmp ar gyfer Cymru gyfan a 22.6pmp ar gyfer Gogledd Cymru. Yn 2019/20 roedd y raddfa ar ei isaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, sef 3.3pmp, ac roedd ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru, sef 7.2pmp, o'i gymharu â 11.5pmp y flwyddyn flaenorol a dim ond 2.9pmp yn 2017/18. Er bod y niferoedd yn fach ac yn agored i amrywio, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod un farwolaeth yn un yn ormod. Tanau mewn anheddau ydi'r prif achos dros farwolaethau tân o hyd, a rhoddir lle blaenllaw iddo yng ngweithgareddau atal yr Awdurdod.

Yng Ngogledd Cymru cafwyd 128 o anafusion anangheuol yn 2019/20, mae hyn yn cynnwys anafiadau difrifol a mân anafiadau, yn ogystal â'r rheiny a dderbyniodd gymorth cyntaf neu a gafodd eu cynghori i gael archwiliad rhagofalus; er bod hyn yn gynnydd o 117 yn 2018/19, cafwyd y nifer (a'r raddfa) isaf ers 2001/02 y flwyddyn honno.

Mae'r niferoedd a graddfeydd cysylltiedig ar gyfer anafusion tân anangheuol yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, fodd bynnag mae'r tueddiad cyffredinol ers 2001/02 wedi bod am i lawr. Yn 2018/19 cafwyd gostyngiad yn niferoedd (a graddfeydd) anafusion anangheuol ym mhob ATA ond eleni cafwyd cynnydd yng Ngogledd Cymru a De Cymru, ond gostyngiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

## Tanau Mewn Anheddau


Yng Ngogledd Cymru cynyddodd nifer y tanau mewn anheddau i 383 yn ystod 2019/20 o 360 y flwyddyn flaenorol, a oedd yn nifer isel iawn ar gyfer tanau o’r natur hwn. Er gwaetha’r cynnydd hwn, mae nifer y tanau yn debyg i’r niferoedd a welwyd cyn 2018/19.

Yng Ngogledd Cymru roedd 93% o danau mewn anheddau wedi cychwyn yn ddamweiniol. Yn ystod 2019/20 gwelwyd cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru ac yn Ne Cymru o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, ond cafwyd gostyngiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Ers 2001/02 mae’r tueddiad wedi bod at i lawr o ran nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yng Nghymru ar y cyfan. Mae’r ffigwr ar gyfer 2019/20 40% yn is nag yn 2001/02, gyda nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn gostwng o 2,490 i 1,508 yn ystod y flwyddyn yng Nghymru; yn ystod yr un cyfnod gostyngodd y tanau hyn 42% yng Ngogledd Cymru, o 614 i 356 o danau.

Yn 2019/20, y prif beth a achosodd danau damweiniol mewn cartrefi oedd camddefnyddio offer neu beiriannau, sef traean o’r tanau hyn. Dyma’r prif beth a achosodd danau damweiniol mewn cartrefi ers 2001/02.

**Tanau damweiniol mewn anheddau (Gogledd Cymru)**





Pan gyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd bod y coronafeirws yn sefyllfa pandemig fe aeth y DU i ‘gyfnod clo’ ar 23ain Mawrth 2020 ac roedd hyn yn golygu bod pobl yn treulio llawer iawn mwy o amser yn y cartref, yn hytrach nag yn yr ysgol neu’r gwaith. Mewn ymateb i hyn, cychwynnodd yr Awdurdod ailadrodd ei negeseuon allweddol i’r gymuned drwy amryw o gyfryngau. Er hyn cafwyd mymryn o gynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau tuag at ddiwedd Mawrth 2020. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro ac adolygu’r sefyllfa yn agos wrth i’r pandemig barhau yn 2020/21.

## Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Mewn Anheddau

Yn yr 19 mlynedd ers 2001/02, mae 77% o’r marwolaethau tân wedi digwydd mewn cartrefi, sy’n cyfateb i gyfanswm o 324 allan o 423 o farwolaethau (er enghraifft, tanau mewn cerbydau, safleoedd annomestig, safleoedd eraill) . Yn 2019/20 roedd 71% o farwolaethau o ganlyniad i danau mewn cartrefi, sef cyfran debyg i’r hyn a gafwyd yn y ddwy flynedd flaenorol. Yng Ngogledd Cymru, cafwyd un farwolaeth yn llai yn 2019/20 nag yn y flwyddyn flaenorol.

**Marwolaethau Tân Mewn Anheddau**

| | Gogledd Cymru | | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | De Cymru | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 |
| Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau | 5 | 4 | 5 | 2 | 4 | 5 | 14 | 11 |
| Nifer y marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn anheddau | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |

Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/IN/002iii a FRS/SEC/IN/002iv

**Anafusion anangheuol (heb gynnwys archwiliadau rhagofalol a chymorth cyntaf) oherwydd tanau mewn anheddau**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd tua 80% o'r anafiadau anangheuol o ganlyniad i danau damweiniol yng Nghymru ac roedd tua dau draean o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau. Cafwyd 104 o anafiadau anangheuol o ganlyniad i danau mewn anheddau yn 2019/20, sef 23 yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac, roedd nifer yr anafiadau anangheuol o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau yn gyson ym mhob un o'r tri arfal ATA yng Nghymru, sef traean, yn ystod y flwyddyn.

| | Gogledd Cymru | | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | De Cymru | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 |
| Nifer yr anafusion o ganlyniad i danau damweiniol mewn anheddau | 17 | 30 | 37 | 29 | 41 | 30 | 95 | 89 |
| Nifer yr anafusion o ganlyniad i danau bwriadol mewn anheddau | 17 | 2 | 4 | 3 | 11 | 10 | 32 | 15 |

Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/IN/002v a FRS/SEC/IN/002iv (data 2018/19)

Yng Ngogledd Cymru roedd 71% o'r anafiadau anangheuol oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yn 2019/20, sydd gyfystyr â 32 allan o 45 o danau; cofnodwyd dau anaf difrifol yn llai na'r flwyddyn flaenorol yn ogystal yn 2019/20. Cafwyd 15 yn fwy o fân anafiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond dylid nodi bod y niferoedd a gofnodwyd yn 2018/19 yn anarferol o isel.

| Marwolaethau ac Anafiadau mewn Tanau Damweiniol mewn Anheddau | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 49 | 32 | 13 | 19 |
| Cymorth Cyntaf | 42 | 25 | 27 | 41 |
| Anafiadau - mân | 25 | 39 | 11 | 26 |
| Anafiadau - difrifol | 8 | 2 | 6 | 4 |
| Marwolaeth | 4 | 1 | 5 | 4 |
| Cyfanswm | 128 | 99 | 62 | 94 |

Mae coginio (heb gynnwys nifer y tanau sosban saim) yn parhau i fod yr un peth sy'n achosi'r nifer fwyaf o anafiadau anangheuol mewn tanau damweiniol yn 2019/20, tua un rhan o bump. Am y rheswm hwn, mae ymgyrchoedd diogelwch wrth goginio yn parhau'n un o brif flaenoriaethau Grŵp Llywio Ymgyrchoedd Gogledd Cymru o flwyddyn i flwyddyn.


## Galwadau Diangen

Yn 2019/20, aethpwyd at 14,732 o alwadau tân diangen yng Nghymru, sef gostyngiad o 2% ers 2018/19 (15,015). Ers 2001/02 mae nifer y galwadau diangen am danau wedi gostwng 25%. Mae herio galwadau'n llwyddiannus wedi bod yn ffactor yn y gostyngiad tymor hir hwn.

Yn 2019/20 cafwyd 2,274 o alwadau diangen yng Ngogledd Cymru, sef cynnydd o 3.0% o 2,267 y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y galwadau diangen didwyll yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (7%), ac mae galwadau tân diangen maleisus wedi aros yn gymharol isel, 41 achos eleni a'r llynedd. Yn 2019/20 cafwyd cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (7%) yn nifer y galwadau diangen oherwydd cyfarpar (systemau larwm tân awtomatig), lle cychwynnodd yr alwad wedi i larwm tân ac offer diffodd tân ddechrau gweithredu.

Cyn y newid mewn polisi yn Ebrill 2015 byddai'r Awdurdod yn mynd at ryw 1,900 o Larymau Tân Awtomatig bob blwyddyn, cyn darganfod eu bod yn alwadau diangen. Fel arfer deuant o safleoedd annomestig, felly gweithiodd yr Awdurdod gyda'r gymuned fusnes i annog cynnal larymau tân a chyfarpar a phwysleisio pwysigrwydd sefydlu gweithdrefnau clir ar sut i seinio rhybudd os amheuir tân. Yn 2015/16 cafwyd 966 o alwadau diangen oherwydd cyfarpar, sef gostyngiad o 1,972 yn 2014/15.
Fodd bynnag, cafwyd tueddiad at i fyny yn nifer y galwadau diangen oherwydd cyfarpari, ac maent wedi cynyddu'n raddol, 26% ers 2015/16. Yn ddiddorol dydi nifer y galwadau diangen mewn safleoedd annomestig yr aethom atynt ddim wedi newid ryw lawer, mae'r cynnydd, yn hytrach, o ganlyniad i alwadau diangen mewn anheddau, fel arfer systemau monitro ffôn 24/7 a gwasanaethau ymateb i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro ac adolygu digwyddiadau o'r fath.

**Achosion Galwadau Diangen, Gogledd Cymru**




Ffynhonnell: Dangosydd Perfformiad Statudol FRS/RRC/S/001vi a Dangosydd Perfformiad y Sector FRS/SEC/FA/003i a FRS/SEC/FA/003ii

## Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (argyfyngau nad ydynt yn danau)


Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yw chwarter yr holl ddigwyddiadau y mae ATAau yng Nghymru yn mynd atynt. Yn 2019/20 cafwyd 648 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 755 y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 14.2%. Gwelodd Canolbarth a Gorllewin Cymru gynnydd o 12.2% mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig a chafwyd cynnydd o 11.7% yn Ne Cymru.

Yng Ngogledd Cymru, roedd 28% o'r digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod 2019/20. Mae'r nifer hwn wedi gostwng o 220 o ddigwyddiadau yn 2018/19 i 179 o ddigwyddiadau yn 2019/20, er y cynnydd cyffredinol mewn cerbydau trwyddedig. Dengys yr ystadegau ar gerbydau trwyddedig gan yr Adran Trafnidiaeth bod tua 38.7 miliwn o gerbydau trwyddedig ym Mhrydain Fawr ar ddiwedd 2019, sef cynnydd o 1.3% o'i gymharu â diwedd 2018.

Dylid nodi hefyd bod y cyfyngiadau teithio cenedlaethol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 wedi arwain at lai o gerbydau ar y ffyrdd yn ystod Mawrth 2020. *"Yn dilyn adolygiad o dros 15,000 o siwrneiau dyddiol mewn ceir gwelwyd bod patrymau teithio rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener yn ystod cyfnod clo tua 60% yn is, ac roeddent 10% yn is ar Sadyrnau ac 80% yn is ar y Sul." yr* AA

Tuag at ddiwedd Mawrth, arhosodd nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn gyson isel, sydd wedi cyfrannu'n rhannol ar y gostyngiad mewn digwyddiadau eleni. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro hyn wrth i'r pandemig barhau yn 2020/21.

## Gweithgareddau allweddol yn ystod 2019/20:



## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD

Cyflwynwyd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 ar 1 Ebrill 2015 a chyflwynwyd tri Dangosydd Perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â'r dangosyddion sector sy'n cael eu casglu'n lleol.

| **DANGOSYDDION STATUDOL:** | | **2018/19** | | **2019/20** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Graddfa** | **Nifer** | **Graddfa** |
| RRC/S/001i | Tanau yr aethpwyd atynt | 2,281 | 32.78 | 1,950 | 27.92 |
| RRC/S/001ii | Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,269 | 32.61 | 2,274 | 32.56 |
| RRC/S/001iii | Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 220 | 3.16 | 179 | 2.56 |
| RRC/S/001iiv | Argyfyngau eraill yr aethpwyd atynt | 535 | 7.69 | 469 | 6.72 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002i | Marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân | 48 | 6.90 | 50 | 7.16 |
| RRC/S/002ii | Marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweinio | 28 | 4.02 | 46 | 6.59 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| RRC/S/002iii | Tanau mewn anheddau a oedd wedi eu cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn | 313 | 86.94 | 339 | 88.51 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

| **DANGOSYDDION Y SECTOR:** | | **2018/19** | | **2019/20** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Graddfa** | **Nifer** | **Graddfa** |
| SEC/FI/001i | Tanau bwriadol | 657 | 9.44 | 652 | 9.34 |
| SEC/FI/001ii | Tanau damweiniol (neu lle nad yw'r cymhelliad yn hysbys) | 1,626 | 23.35 | 1,298 | 18.59 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/IN/002i | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân | 8 | 1.15 | 5 | 0.72 |
| SEC/IN/002ii | Anafiadau a achoswyd gan danau | 40 | 5.74 | 45 | 6.44 |
| SEC/IN/002iii | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 5 | 0.72 | 4 | 0.57 |
| SEC/IN/002iv | Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau bwriadol mewn cartrefi | 1 | 0.14 | 0 | 0.00 |
| SEC/IN/002v | Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 17 | 2.44 | 30 | 4.30 |
| SEC/IN/002vi | Anafiadau'n gysylltiedig â thanau bwriadol mewn cartrefi | 17 | 2.44 | 2 | 0.29 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 100,000 o boblogaeth | | | | | |
| SEC/FI/001iii | Tanau mewn cartrefi | 360 | 11.02 | 383 | 11.71 |
| SEC/FI/001iv | Tanau damweiniol mewn cartrefi | 327 | 10.01 | 356 | 10.88 |
| SEC/FI/001v | Tanau bwriadol mewn cartrefi | 33 | 1.01 | 27 | .83 |
| SEC/FA/003ii | Galwadau diangen mewn cartrefi | 853 | 26.11 | 951 | 29.08 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 10,000 o anheddau | | | | | |
| SEC/FI/001vi | Tanau mewn safleoedd annomestig | 223 | 7.34 | 216 | 6.93 |
| SEC/FA/003i | Galwadau diangen mewn safleoedd annomestig | 279 | 9.19 | 262 | 8.41 |
| Lle mae'r raddfa yn seiliedig ar 1,000 o safleoedd annomestig | | | | | |
| SEC/SA/004i | Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno | 47 | 13.06 | 49 | 12.79 |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | |

## Y SIARTER YMATEB I DANAU MEWN ANHEDDAU YN 2019/20


Yn ystod 2012 fe wnaeth y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl yng Nghymru, ni waeth ble y maent yn byw, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi, ac os bydd tân yn cychwyn byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.
4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiad â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2019/20.

Er cysondeb, rydym yn cynnig defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynghylch y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigyrau o fewn fframwaith y naratif hwnnw.



**1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.**
Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau wrth gynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2019/20 fe wnaethom ni ddarparu cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â'r modd y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal tanau yn cynnwys cynnal 19,004 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i breswylwyr, ac fe wnaeth 21,251 o blant a phobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 1 - 4 dderbyn sgwrs ar ddiogelwch tân.

Yn ystod 2019/20 aethom at 327 o danau damweiniol mewn anheddau ble cafodd pedwar person ei ladd a 30 o bobl eraill eu hanafu.

Hefyd yn ystod 2018/19 aethom at 27 o danau mewn anheddau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, lle cafodd dau o bobl eu hanafu ond chafodd neb ei ladd.

Mae'r tuedd yn y nifer o danau mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad cyson.



**2.Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**
Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fo galwadau brys 999/112 yn cael eu trosglwyddo inni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli tân ar gael yn barhaol, gyda threfniadau arbennig yn eu lle ar gyfer trosglwyddo galwadau'n llyfn o un ystafell i'r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu os bydd cynnydd mawr yn nifer y galwadau sy'n dod drwodd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio a systemau electronig soffistigedig yn gymorth inni wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.

Yn 2019/20, fe wnaethom ni drin cyfanswm 12,304 o alwadau brys 999/112. Roeddem ni hefyd yn gallu cael digon o wybodaeth am ddigwyddiadau i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol cyn pen 90 eiliad ar 90.3% o adegau, a rhwng 91 a 120 o eiliadau ar 5.7% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad pa mor gyflym yr ydym yn trin yr alwad yw'r unig ffon fesur berthnasol – er bod hynny'n bwysig. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaeth yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan bobl sy'n galw ac sydd, efallai, yn anghyfarwydd â'r ardal lle maent, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu gydag anawsterau iaith neu gyfathrebu.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd y mae galwr yn camddefnyddio'r system 999/112 drwy honni bod yna argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau ffug i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhwystro lleiafrif o bobl rhag defnyddio'r llinellau 999 a thynnu gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n wirioneddol yn bygwth bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at y galwadau diangen mae amser ac arian yn cael eu gwastraffu ac mae'n gosod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2019/20, fe wnaethom ni dderbyn 102 o alwadau diangen maleisus. Yn 60% o'r achosion, roeddem wedi gallu sefydlu nad oedd y galwadau hyn yn rhai didwyll ac felly wedi osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.**
Unwaith y byddwn wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fod yn bresennol gyntaf yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwydd yn gyflym, yn ddiogel a chyda'r offer cywir i ymdrin â'r mater.



Yn 2019/2019 fe wnaethom ni ymateb i *% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, *% o fewn 5- 10 munud, *% o fewn 10-15 munud a *% mewn 15 munud a mwy. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio felly mae sawl peth yn gallu effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.
*Aros am y ffigurau gan Lywodraeth Cymru

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn eithriadol bwysig ond ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol a chynllun dianc wedi ei gynllunio o flaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os

bydd tân mewn annedd, rydym yn sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân yr offer cywir i'w ddiffodd.

Mae gan ein diffoddwyr tân gyfarpar amddiffyn personol a chyfarpar diffodd tân, o safon. Rydym yn gofyn iddynt fod yn ffit ac yn iach ac yn gofalu bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio bod y ffordd y mae ein criwiau wedi trin digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau derbyniol ar gyfer diffodd tanau.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân yn gwbl o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2019/20 aeth ein criwiau at 1,950 o danau mewn amrywiaeth o lefydd gwahanol gan gynnwys yn yr awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 22 o staff gweithredol anaf. I rai, bychan oedd yr anaf, ond i eraill roedd yr anaf yn ddigon difrifol iddynt orfod cymryd amser i ffwrdd er mwyn dod atynt eu hunain. Peth prin yw anafiadau difrifol i ddiffoddwyr tân – o blith yr uchod, doedd dim un yn anaf 'penodol' dan Reoliadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau).




**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**
Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I wneud hyn, mae ein criwiau'n cael y sgiliau, yr wybodaeth, y cyfarpar diffodd tân a chefnogaeth rheolwyr fel eu bod yn gwbl barod i ymdrin â'r tân mewn annedd, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Yn 2019/20, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gyfyngu 88.5% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criwiau (megis faint o amser a gymerodd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi eu cau ai peidio er mwyn rhwystro'r tân rhag lledaenu, a faint o amser oddi wrth orsaf dân yr oedd yr annedd), rydym yn dal yn ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant wrth ddiffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i gyfarpar, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddysgu beth yw'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifrif. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion a rhinweddau personol pob un o'n staff gweithredol yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddiant rheoli a gweithredol.

Rydym yn annog pob un o'n staff i gadw at gyfres o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan wasanaethau tân ac achub y DU ac sy'n cyfleu ein hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i wella.



**5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau..**
Rydym wedi ymrwymo i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Mae cael tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo bydd angen cymorth ymarferol yn ogystal â chymorth emosiynol. Pan fo pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, mae'r profiad yn gallu effeithio ar gymunedau gyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu agos a'i gyfeillion. Oherwydd hyn nid yw cyfraniad y Gwasanaeth Tân ac Achub at

gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a phawb wedi ei ddarganfod. Ymhob achos, ymchwilir i achos y tân a gwneir cofnod manwl. Bydd yr holl fanylion ynglŷn â sut a ble y cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell ar gyfer dysgu, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu bod tân wedi ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar ôl hyn.

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddau ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cychwyn yn ddamweiniol, byddwn efallai'n cynnal rhyw fath o weithgarwch diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn rhad ac am ddim.

**6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**



Byddwn wastad yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Yn aml bydd achos a tharddiad tân yn eglur a syml iawn, ond weithiau bydd angen ymchwiliad mwy trylwyr a fforensig i wybod beth yw achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bychan y bydd yr achos yn 'anhysbys'. Yn 2019/20, dim ond 12 o danau mewn anheddau a gofnodwyd lle'r oedd yr achos yn 'anhysbys' .

Os oes amheuaeth o drosedd, cynhelir yr ymchwiliad i'r tân gyda'r Heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn debygol o wynebu achos troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig lwybr posibl – er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawn hunanladdiad.

Yn 2019/20, aethom at o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 27 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cyffredin sy'n cael eu rhannu yn dod dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr yr adeilad) gael trefniadau diogelwch tân da yn eu lle. Mae methu â gwneud hynny yn gallu arwain at gau'r safle ac erlyn y person sy'n gyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau syn gyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth hon, a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau gorfodaeth sydd ar gael inni gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tramgwydd a pha risg mae'n ei olygu.

Yn 2019/20 ni chyflwynom yr yn hysbysiad gorfodi na rhybudd ffurfiol, fodd bynnag fe gyflwynom ddau hysbysiad gwahardd. Ni chafodd yr un erlyniad ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.



**7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**
Rydym yn mynd ati'n barhaus i ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac mae disgwyl iddynt adolygu'n rheolaidd a gwella'n barhaus eu perfformiad eu hunain drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd ynghylch Amcanion Gwella blynyddol.

Ond nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon gan fod safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith bob dydd yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch gwella sy'n cael ei wneud:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth
- Dysgu oddi wrth ein profiadau, megis drwy drafod ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu adroddiadau am ddamweiniau a fu bron â digwydd
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu oddi wrth ymchwil sy'n cael ei gynnal
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth – a chyda – sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i gynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol
- Mynd ati'n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau materol a chyfrifiadurol, megis ein cyfarpar, ein cerbydau, ein hadeiladau a'n technoleg.

## BETH MAE POBL ERAILL WEDI'I DDWEUD AMDANOM

**Archwilio Cymru - Adolygiad o gyfranogiad 2019/20**

Roedd yr adroddiad diweddaraf gan Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar dull yr Awdurdod o reoli'r broses o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisiau, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan yr awdurdod bocedi o weithgareddau ymgysylltu da ond nad yw wedi mabwysiadu ymagwedd strategol integredig tuag at gyfranogi hyd yma. Mae copi o'r adroddiad ar gael yma.

**GWYBODAETH ARALL**

Mae Deddf Tân ac Achub 2004 yn egluro dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:

- Hybu diogelwch tân;
- Ymladd tanau;
- Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
- Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
- Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol;
- Ymateb i argyfyngau mawr, megis ymosodiadau terfysgol.

Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007** a **Gorchymyn (Diwygio) 201**7 yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn perthynas ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; dymchweliadau strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; a llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol pan maent yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn mynnu bod yr Awdurdod yn cynllunio ar gyfer ac yn ymateb i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gorfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

Dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliant a'i berfformiad.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gweithio tuag at wella llesiant cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aeld statudol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i dalu sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yng Nghymru statws cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn hytrach, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data 2018** i foderneiddio'r deddfau diogelu data a chwrdd ag anghenion economi a chymdeithas sydd yn dod yn fwyfwy digidol. Mae'n darparu fframwaith gyfreithiol ar gyfer diogelu data, gweithredu safonau GDPR yn gyffredinol wrth brosesu data a gwneud yn siŵr bod gan y DU ddeddfwriaeth briodol i ddiogelu wedi iddo adael yr UE.

**Dyletswyddau’r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru**

<table>
<tr><td>Cynllunio ar gyfer ac ymateb i argyfyngau mawr sy’n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch</td><td>Gorfodi diogelwch tân mewn safleoedd annomestig</td><td>Hyrwyddo Diogelwch tân</td><td>Ymladd tanau, ac amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau</td><td>Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd</td></tr>
<tr><td>Ymateb i argyfyngau mawr megis ymosodiadau terfysgol</td><td colspan="3">DYLETSWYDDAU’R AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU</td><td>Ymateb i risgiau penodol, megis digwyddiadau cemegol a rhai mathau o argyfyngau llifogydd</td></tr>
<tr><td>Gosod amcanion i barhau i wella’n barhaus</td><td>Dileu camwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol</td><td>Gweithio mewn modd sydd yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau</td><td>Trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gydradd, hyrwyddo’r Gymraeg a chydymffurfio gyda’r safonau Iaith Gymraeg diffiniedig</td><td>Gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl</td></tr>
</table>

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**
http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=cy

**Swyddfa Archwilio Cymru**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy’n gorfod asesu pa mor debygol yw’r Awdurdod o barhau i wella ac asesu a yw’r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â’r cyfarwyddyd perthnasol. Hefyd, mae archwilwyr yn gweithio gydag awdurdodau tân ledled Cymru i gynnal rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian. http://archwilio.cymru/

**Trwyddedi Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**

Mae deunyddiau hawlfraint y Goron yn cael eu hatgynhyrchu yn y ddogfen hon dan Drwydded Rhif C2010002320.

**Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon**
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru 2018/19: https://gov.wales/fire-and-rescue-incidentstatistics-april-2018-march-2019
Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue
Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol 2017
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report2017-cy.pdf

**YMYRRYD OS BYDD METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO:**
Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrryd:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol;
- dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Ond yn yr holl amgylchiadau, heblaw'r rhai mwyaf eithriadol, ni all Gweinidogion Cymru ond ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU:

Pob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a sylwadau'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses i ddatblygu ei gynlluniau ac amcanion strategol.

Mae'r ymgynghoriadau diweddar wedi eu rhestru isod:

| Teitl | Ymgynghoriad | Dyddiad | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21 ymlaen (Strategaeth Amgylcheddol newydd) | Haf/Hydref 2019 | Mawrth 2020 | 2020/21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019/20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018/19 ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018/19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017/18 ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017/18 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016/17 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015/16 |
| Amcanion Gwella 2014/15 yn cynnwys Strategaeth Ariannol Newydd | Hydref 2013 | Mawrth 2014 | 2014/15 |

## GEIRFA/DIFFINIADAU

• **Tanau**
Mae pob tân yn dod o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

• **Prif Danau**
Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau ac sydd yn unrhyw fath o adeiladu (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb. Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, hefyd danau yn unrhyw le lle aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt.

• **Tanau Eilaidd**
Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai nac yn brif danau. Nid oes anafusion, achub neu ddianc, mewn tanau eilaidd, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb.

• **Tanau Simnai**
Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun. Nid oes anafusion, achub neu ddianc anafusion mewn tanau simnai, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.

• **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**
Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:

  - Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb
  - Trychinebau mawr;
  - Digwyddiadau domestig e.e. dwr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb
  - Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

• **Marwolaethau oherwydd Tân (yn gysylltiedig â thân)**
Pan fydd unigolyn yn marw o ganlyniad i dân hyd yn oed os ydynt yn marw wythnosau neu fisoedd wedi'r tân. Ceir achosion prin hefyd pan y daw hi'n amlwg nad y tân a achosodd eu marwolaeth. Felly mae'r ffigurau hyn yn cael eu diwygio o hyd.

• **Anafiadau oherwydd Tân**
Er cysondeb, ers Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg.

• **Galwad ddiangen (canllaw cyffredinol)**
Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli. Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.

• **Galwadau diangen Maleisus**
Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.

• **Galwadau diangen - Didwyll**
Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.

• **Galwadau diangen – Larymau tân awtomatig**
Dyma alwadau a ddaw gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad' (er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad)

## FERSIYNAU ERAILL A SUT I GYSYLLTU Â NI

**Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael:**

- **ar bapur ac yn electronig;**
- **yn Gymraeg ac yn Saesneg;**
- **taflen gryno o'r prif bwyntiau;**
- **fformatau hygyrch drwy ein gwefan**

**Manylion Cyswllt:**

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
(GTAGC) Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac
Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy Llanelwy
Sir Ddinbych LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535 250

www.gwastan-gogcymru.org.uk

**Gallwch chi ein dilyn ni hefyd ar:**

@northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice

### GWAHODDIAD I GYFRANNU AT WELLA EIN GWASANAETHAU

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ei weithrediadau a'r modd mae'n darparu gwasanaethau. Drwy fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ystyrlon, ein gobaith yw ennyn mwy a mwy o gysylltiad â'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Felly, os oes gennych chi sylwadau am yr Asesiad hwn, neu am ffyrdd posibl o wella ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol, bydden ni'n falch o glywed gennych chi.